YR YMOFYNYDD.

RHIF 47.] GORPHENHAF, 1851. [CYF IV.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

YR EGLWYS YN YR ANIALWCH.

Y DYGIAD ALLAN O'R AIPHT—A RHYFEDDODAU Y MOR COCH.

Exod. xx. 1. "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dy y caethiwed."

Gyda chymhwysder yr edrychir ar ddygiad Israel allan o'r Aipht, fel un o brif ffeithiau yr hanes Iuddewig. Mae yr unig hanes sydd genym o'r amgylchiad, yn dywedyd yn bendant mai mewn modd goruwch-naturiol neu wyrthiol y cymerodd le—fel rhan o drefn neillduol rhagluniaeth, tuag at bobl neillduol, a chydag amcan neillduol, a theilwng o'r amgylchiad; sef ydoedd, i ffurfio y bobl hyn yn EGLWYS Y DUW BYW.

Mae'n wir fod anhawsderau yn nglyn â rhanau o'r hanes; a rhyfedd iawn pe na buasai felly mewn ysgrifeniadau sydd mor hen. Ond am y ffeithiau a adroddir yn Llyfrau Moses, nis gellir eu gwrthod, a bod yn gyson, heb ar yr un pryd wrthod hanes y genedl ryfedd hon am yr oesoedd canlynol, a gwadu eu defodau a'u sefydliadau crefyddol a gwladwriaethol; am ba rai nid oes mwy o le i amheuaeth nag y sydd fod hynafiaid yr Iuddewon sydd yn awr yn wasgaredig, wedi bod unwaith yn trigianu gwlad Canaan. Mae olion y sefydliad Iuddewig yn ngwlad Canaan, a'i ddylanwadau ar y byd cymydogaethol, yn bethau anwadadwy. Ac wrth olrhain hanes y genedl o oes i oes, arweinir ni yn anocheladwy yn ol at ddechreuad eu sefydliadau gwladol a chrefyddol, yn rhoddiad y gyfraith iddynt trwy ddwylaw Moses. Dyma'r amgylchiad sydd dan ein sylw yn bresenol.

Pan y llefarwyd y geiriau uchod yr oedd cenedl Israel yn gyfan, oddeutu dwy filiwn o rifedi, mewn gwersyllfa wrth odre mynydd Sinai yn Arabia. Ychydig o fisoedd cyn hyn, yr oedd y rhai'n i gyd mewn cyflwr o gaethiwed yn ngwlad yr Aipht, a'r Aiphtiaid yn awdurdodi arnynt ac yn eu gorthrymu yn dost. Ond y maent yn awr yn yr Anialwch, dan arweiniad Moses, wedi eu rhyddhâu o'u caethiwed, a'r mor côch rhyngddynt a gwlâd yr Aipht.

A'r cwestiwn yw,—Pa fodd y daethant i'r fan yma? Pa fodd y diangasant o grafangau eu gorthrymwyr nerthol a gofalus? Ai trwy eu nerth eu hunain a'u dewrder mewn rhyfel? Neu, trwy gyfrwystra eu Blaenor,

Moses? Y mae hyny, pa un ai ar y naill dyb neu'r llall, yn eithaf annhebygol, ie, yn anmhosibl. Yr Aiphtiaid oedd y genedl fwyaf rhyfelgar a mwyaf nerthol a chwrteithiedig y pryd hyny ar y ddaear; ac am oesoedd lawer cyn a chwedi yr amser hyn. Nid oedd nerth a gwrolder yr Israeliaid ond megis dim o flaen byddinoedd eu gorthrymwyr. Ac am Moses, eu Blaenor, nid ydoedd nac yn Rhyfelwr nac yn areithydd, ac nid ymddengys ei fod yn meddu ar alluoedd neu gyfrwysdra naturiol mwy na'r gyffredin.

Y mae'r cwestiwn gan hyny yn dychwelyd — Pa fodd y dygwyd yr Israeliaid allan o dŷ eu cathiwed, ac y daethant i wersyllu yn ddiogel yn anialwch Sinai?

Nid ymddengys fod un ffordd i atteb yn cwestiwn yn foddlonol heblaw trwy ddywedyd mai *nid trwy foddion naturiol* y dygwyd hwynt allan o'r Aipht. Eithr mai Duw mewn modd *goruwch-naturiol* a'u dygodd hwynt allan, trwy wyrthiau a rhyfeddodau, y rhai a wnaeth efe yn yr Aipht ac yn y Mor Côch —er atteb rhyw ddibenion doeth a daionus, ac i wneuthur yr Israeliaid yn bobl briodol iddo ei hun.

Y pwngc blaenaf a gynnwysir yn y testun uchod yw—y berthynas neillduol ag oedd Duw yn ddwyn tuag at y genedl Iuddewig fel ei eglwys; sef, bod Jehovah, yn Dduw i'r genedl hon mewn ystyr mwy neillduol nag i un genedl arall o'r byd. Am hyny nid annghymwys fydd i ni ymofyn yn mha ystyr y deallid y berthynas hon gan yr Israeliad eu hunain; a chan y cenhedloedd amgylchynol; ac yn mha ystyr hefyd y mae i *ni* ddeall fod Jehofah yn Dduw i Israel yn neillduol, yn gyson â'r gwirionedd mawr ei fod yn "Dduw a Thâd pawb oll."

Gwelir fod trin y cwestiynau hyn yn cynnwys yr ymofyniad—Beth oedd natur a diben y sefydliad Iuddewig trwy Moses, ynghyd a'r nodau ei fod o Dduw, a'i gymmwysder i atteb yr amcanion; amcenir sylwi wrth fyned heibio ar y gwrth-ddadleuon a ddygir gan annghredinwyr.

Y mae yn anmhosibl i ni, mewn cyhoeddiad fel yr *Ymofynydd*, i fyned dros y pethau hyn i gyd gydâ'r manylwch y gellid ei ddymuno. Rhaid i ni gan hyny adael heibio lawer peth a ddichon feallai ymgynnyg i'r darllenydd, ac ymfoddloni y pryd hwn ar osod ger ei fron, rai ystyriaethau oddiwrth natur ac amcan a rhagoroldeb y sefydliad Iuddewig, i brofi ei fod o Dduw; ac er ei fod ar rai golygiadau yn anmherffaith, a'i gydmaru â goruwchwyliaeth sydd well, etto ei fod yn taro amgylchiadau y genedl a dynolryw ar y pryd, ac yn gyson â doethineb Duw a'i ddaioni cyffredinol.

Ond heblaw hyn, ac yn anymddibynol ar hyn, y mae amgylchiad arall yn aros—yn sail i ddwyfoldeb y grefydd Iuddewig—sef dyfodiad Israel allan o'r Aipht, yr hyn nid oes le i wadu neu ammeu iddo gymmeryd lle—amgylchiad hefyd, o'i ystyried yntho ei hunan, a'r amgylchiadau rhagflaenorol ynghyd â'i ganlyniadau, nad ymddengys fod un modd i gyfrif am dano heb law iddo gymmeryd lle mewn modd *goruwch-naturiol*. Mai trwy wyrth y dygwyd hwynt trwy'r Môr Côch, ac yr arweiniwyd hwynt yn ddiogel hyd at odre mynydd Sinai, yno i dderbyn cyfraith oddiwrth Dduw trwy ei was Moses; fel y mae yn ysgrifenedig ddarfod i lais Duw lefaru yn gyhoeddus wrth yr holl bobl ar roddiad y gyfraith yn y geiriau, "Myfi yw *Jehovah* dy Dduw yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed."

Gadawer i ni yma ddywedyd, beth y'm ni yn ei feddwl wrth *wyrth*, neu weithrediadau goruwch-naturiol; ac yn mha beth y maent yn gwahaniaethu oddiwrth addysgiadau a gweithrediadau naturiol y Creawdwr.

Yr un gallu sy'n gweithredu mewn gwyrthiau ag sydd mewn gweithrediadau naturiol. Un gallu mawr sy'n gweithredu trwy'r cyfan. Gallu Duw a greodd y Mor Coch fel moroedd eraill, ac sy'n parhau oddiar hyn y hydyn awr i weithredu arno a thrwyddo, i chwyddo ei donnau, neu i'w tawelu, yn ol cyfreithau sefydlog—yn unol a'r ddeddf a roddes arno fel ar y dyfroedd eraill. Yr oedd gweithrediadau Duw yn y Mor Coch erioed fel y maent yn mhob peth—y fath ag i beri syndod a rhyfeddod i'r ystyriol, wrth feddwl am allu a doethineb annghydmarol Crëwr a Llywodraethwr y byd. Etto gweithrediadau *naturiol* y'm ni yn eu galw a'u hystyried; am eu bod yn ol y cyfreithiau sefydlog, y rhai a elwir cyfreithiau natur.

Ond pan holltwyd y Mor Coch wrth yn unig fod Moses yn estyn ei law arno, i wneuthur llwybr i'r Israeliaid fyned trwodd ar dir sych—yr oedd yno wyrth, neu weithrediad gwyrthiol. Nid oedd gwaith Moses yn estyn ei law ar y môr, ddim yn ddigonol achos i'r gweithrediad rhyfeddol hyn; y mae yr un mor amlwg nad oedd un achosion naturiol yn ddigonol i'w ddwyn oddiamgylch. Am hyny ni ddywedwn ei fod yn oruwch-naturiol neu yn wyrthiol, gan farnu nad oedd neb ond awdwr natur a allai symud neu "suspendo" y cyfreithiau a sefydlwyd ac a gedwid mewn grym gantho ef ei hunan.

Hyny yw, i Dduw yr hwn a roddes ddeddf i'r môr, dros y pryd hwn roddi deddf newydd i ddyfroedd y Môr Coch, i beri i'w donnau gilio a bod fel mur o'r naill dû, ac i barhâu hyd nes i'r Israeliaid gyrhaeddyd yr ochr draw; ac yna wrth fod Moses (trwy orchymyn) yn estyn y wialen ar y môr, i Dduw orchymyn i'r dyfroedd ddychwelyd i'w lle, nes boddi llu'r Aiphtiaid yn y môr.

Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd deallir beth yr y'm yn ei feddwl wrth wyrth neu weithrediad gwyrthiol—Mai nid yn unig fod y peth yn fawreddig a rhyfeddol, ac yn peri ofn a syndod wrth sylwi arno—Y mae rhyw fawredd a rhyfeddoldeb annghydmarol yng'weithrediadau naturiol Duw. Gallem ddwyn ar gôf i'r darllenydd, yn llawer hawddach na descrifio, y teimladau bywiog, ag ond odid a brofodd lawer gwaith wrth sylwi ar olygfeydd natur. Ac i beidio ac amlhâu siamplau—a allwn ni ddychymyg am un ardderchawgrwydd a gogoniant allanol o fwy nag y sydd yn yr ymddangosiad adnewyddol sydd gyd â chodiad haul, yn neillduol ar foreu-ddydd o hâf? Teimladau o syndod parchus a hyfrydwch, yw y teimladau ag sy'n cael eu cyffroi yn y sawl sy'n sylwi yn ystyriol ar yr ymddangosiad gogoneddus a'i effeithau—y fath ag nad all tafod ddadgan na iaith ddescrifio yn gyflawn, gan gymmaint o brydferthwch a mawredd a llawenydd sy'n ymdaenu gyda'r pelydrau boreuol; fel y mae holl ddefnynau'r gwlith yn disgleirio yn eu hamryw liwiau—y goedwig a'r llysiau a'r blodau i gyd yn adfywio, ynghyd a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd, a phob perchen aden yn seinio cerdd yn gydlais i Dduw. Ac yntau yr Haul, fel y dywed y Salmydd, yn dyfod i fynu mewn gogoniant "fel gwr priod yn dyfod allan o'i ystafell, ac yn ymlawenhau fel cawr i redeg ei yrfa osodedig"—Etto gweithrediad naturiol yw hyn i gyd. Nid oes dim gwyrthiau yma. Gan fod hyn yn cymmeryd lle o ddydd i ddydd, a bod yr ymddangosiad yn gyffredin a rheolaidd, y mae y rhan amlaf yn gadael i hwn, fel ymddangosiadau eraill i fyned heibio ymron yn ddi sylw, ac heb ddysgu dim oddiwrtho.

Nid yw bod peth yn *ddieithr* neu yn *newydd* i ni, ddim yn gwneuthur y peth yn wyrthiol. Y mae llawer o weithrediadau naturiol—megys yr adfywiad rhyfedd ag sy'n cymmeryd lle yn nhymmor y gwanwyn—ag na wyddom ni

nemawr am yr achosion naturiol o honynt. Ond nid ydym yn dywedyd fod y cyfryw am hyny yn wyrthiol, &c., eithr yn naturiol, yn cael eu dwyn oddiamgylch trwy offeryndod achosion naturiol, er na wyddom ni ddim ym mha fodd—yn ôl rhêol a chyfreithiau sefydledig, fel y mae hâf a gauaf, amser hau ac amser medi yn dyfod, bob un ar y pryd y trefnwyd iddynt. Cyn darfod a hyn o sylwadau ar natur gwyrthiau, a'r gwahaniaeth sydd rhwng gwyrthiau a gweithrediadau naturiol, y mae genym un sylw ymhellach i wneud, ag sy'n ymddangos i ni o bwys; sef, mai nid ar ein *hanwybodaeth* o gyfreithiau natur yr ydym yn adeiladu ein cred mewn gwyrthiau; eithr ar ein gwybodaeth o honynt. Nid ydym yn cyfrif peth yr wyrthiol o herwydd nas gwyddom beth yw'r achosion naturiol o hono; eithr oherwydd y gwyddom fod achosion naturiol yn annigonol tuag at ei ddwyn oddiamgylch. Megys yn y siampl fu genym dan ein ystyriaeth, sef, hollti'r Môr Coch, fel y gallai yr Israeliaid fyned trwyddo.

(I'w barhau).

Mr. Ymofynydd,—Fe allai y gwelwch y llythyr canlynol ar y *Logos** yn deilwng i gael lle yn eich Cylchiolyn. Cyfieithais ef o'r *Christian Pioneer*, am Fehefin, 1841. Ydwyf &c.,

J. Jones, Aberdâr.

"AR Y LOGOS."

"At Golwynydd y '*Christian Pioneer.*'

Syr.—Gadewch i mi trwy gyfrwng eich Cylchiolyn (*Periodical*) defnyddiol i dynnu sylw y cyffredin at y gair uchod, yr hwn sydd yn cael ei ddirfawr gamarferu. Yr ydym yn ei gael yn arferedig yn holl lyfrau Dewinyddiaeth; megis yn gyfystyr a Iesu Grist. Mae y Trindodiaid yn ei ddangos allan yn barhaus, fel march brasgamllyd eu cred. Dadleuwch a hwynt; a hwy ochelant eich profion cadarnaf, trwy ymlochesu o'r tu cefn i'r *Logos*. 'Y gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y gair.' Yr ydym yn clywed yr un cyfnewidiadau yn cael eu chwareu ar y gair, a'r testyn hwn o'r Ysgrythyr trwy eu holl araethiau dadleugar. Ac fel y mae gwaethaf y modd, mae yr Undodiaid weithiau yn addef bod yr ystyr gyfeiliornus hyn i'r gair, heb wneuthur dim amgen na dwyn rhannau ereill o'r Ysgrythyrau i'w wrthwynebu; o leiaf y maent yn fynych yn rhoddi y fath esboniad i'r testyn, ag nad ydyw yn hollol wrthbrofi yr esboniad Trindodaidd.

Yn awr, trwy chwiliad bryslawn yn y Testament Groeg, yr ydwyf yn cael y gair *Logos* yn arferedig, naill ai yn y rhif unigol, neu'r lluosog dros *ddau cant a deg ar hugain o weithiau*; ac etto nid ydyw y Trindodiaid eu hunain yn meddwl ei fod yn un man yn arwyddo Iesu Grist; ond yn yr adnod hon yn unig. Y mae i'w gyfarfod bump a deugain o weithiau yn ysgrifeniadau Ioan ei hun, ac er hynny, nid ydynt wedi beiddio ei bersonoli un waith, ond yn y testyn ffugiol 1 Ioan v. 7, 8. na chasglu Duwdod Crist oddi wrtho. Wrth gwrs, y mae yn cael ei gyfieithu mewn amrywiol ffyrdd; ond ei ystyr gyffredin ydyw y *gair* neu yr *Efengyl*, yr hon a bregethodd

* Bydded hysbys i'r darllenydd uniaith, mai *Logos*, yn Groeg, ydyw y "gair," yn yr adnod gyntaf o Efengyl Ioan.

Crist, a'i apostolion, ac nid ydyw, ac ni all gael ei ddeall yn gyfystyr a Christ ei hun. Fel hyn yn Ioan xii. 48, mae Crist yn dywedyd—'y gair a lafarais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf.' xiv. 24—'A'r gair yr ydych yn ei glywed nid yr eiddof fi ydyw, ond eiddo y Tad yr hwn a'm hanfonodd.' xv. 20—'Cofiwch yr ymadrodd *(Logos)* a ddywedais i wrthych.' Mor ang'hyfiawn gan hynny ydyw rhoddi ystyr arall i'r gair yn yr adnod hon! Paham nas deallir ef yn yr ystyr arferol, sef yr Efengyl yr hon oedd yn y dechreuad ym mwriad Duw, ac yn ewyllys Duw? Os na wneir hynny; eglurwn ef yn ol ei ystyr Drindodaidd trwy ychydig o siamplau ychwanegol, a gwelwn beth fydd y canlyniad. Ym Marc iv. 14, yr ydym yn darllen—'Yr hauwr sydd yn hau y gair.' Yr esboniad arferol o hyn ydyw, mai Crist sydd yn hau yr Efengyl ar y ddaear; ond yn ol ei ystyr Drindodaidd, rhaid iddo arwyddo fod Crist yn hau Duw ar y ddaear, sef ei hun, yr ail berson yn y Drindod! Drachefn yn y 15 adnod yr ydym yn darllen, 'Y mae Satan yn dyfod yn ebrwydd ac yn dwyn ymaith y gair a hauwyd yn eu calonnau hwynt.' Yn ol allwedd y Trindodiaid mae yn rhaid i ni i ddyscu, fod gallu gan Satan i dynnu yr ail berson allan o galonnau y credinwyr! Etto ym Marc v. 36—'A'r Iesu yn ebrwydd wedi clywed y gair *(logos)* a ddywedasid.' &c. Yma y mae Crist ei hun, yr ail berson yn y Drindod, yn gwrandaw arno ei hun *(y logos)* yn dyfod allan o eneuau y rhai oeddent yn ei amgylchynu; A thrachefn yn Luc x. 39—'Mair yr hon hefyd a eisteddodd wrth draed yr Iesu, ac a wrandawodd ar ei ymadrodd ef' 'ton logon autou.' Mae yn rhaid i mi fwrw fod Mair wedi cael yr hyfrydwch anaml o glywed y logos, yr ail berson yn y Drindod, yn dyfod allan o eneu Crist, yr hwn ei hun oedd yr ail berson hwnnw! Ac nid hyn ydyw y cwbl, oblegid yn Heb. ii. 2, a'r xii. 12, mae y gair logos yn cael ei arferu i ddynodi y Cyfammod Moesenedd, fel y mae yn rhaid ei ddeall ef hefyd yn gystal a gair *(logou)* Crist, yn arwyddo Crist ei hun, y gwir a'r tragwyddol Dduw! Ië, ym mhellach arferir y gair *(logos)* yn y rhif luosog. Llafarir am hoi logoi yn gystal a ho logos gan yr Efangylwyr, fel ag y mae rhaid bod nid yn unig *un* ond amrafael o ail berson yn y Drindod!!!

Ond mewn difrifoldeb, pa fath ryddid ang'haniatädwy i gymmeryd ar eiriau y gwirionedd, i droi fel hyn o'i ystyr naturiol, air o ystyr mor gyffredin! a hynny, hefyd, er mwyn tynnu o dan seiliau y gwirionedd pennaf yn y Datguddiad, sef Undod Duw! Ond fe ddywedir fod yr Efangylwr yn rhoddi awdyrdod i'r roddi yr esboniad hwn i'r geiriau yn y lle hwn; oblegid y mae yn dywedyd yn y 14ad—'A'r *gair* a wnaethpwyd yn gnawd.' Mae yn wir, y gair a wnaethpwyd yn gnawd. Fe gâs ei ddadguddio *yn* a *thrwy* Iesu Grist. Yr ydoedd Crist yn ei berson a'i ymddygiad yn eglurhäd byw o'r Efengyl yr ydoedd yn ei phregethu. Unig anedig y Tad ydoedd—yr unig un 'ydoedd wedi ei eni o Duw'—yn wir ddelw ysbrydol y Tad 'yn llawn grâs a gwirionedd.' Pa fodd bynnag, os yr ail berson yn y Drindod ydoedd y *Gair* (logos), ac os gwnaethpwyd hwn yn gnawd; yna nid Bod *ansylweddol*, ond *sylweddol* ydyw yr ail berson yn y Drindod mwyach—nid yn *anweledig, ond yn weledig* mwyach—nid *anfarwol*, ond mwyach mor farwol a dynoliaeth;—nid mwyach yn ang'hyfnewidiol, ond yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau, a chan hynny ni all yr ail berson yn y Drindod fod yn Dduw. Ac os yr ail berson yn y Drindod ydoedd y gair (logos) a wnaethpwyd yn gnawd, yna ar ol iddo gael ei wneuthur felly, fe aeth rwybeth yn chwaneg wedi'n—felly yr ydoedd Iesu Grist, 'y gair a wnaethpwyd yn gnawd,' rywbeth yn

rhagor na'r ail berson—rywbeth yn fwy na Duw? Dyna'r fath gasgliadau angnghyson i'r rhai y mae y gosodiad hwn yn ein harwain.

"Ond yn olaf, fe ddywedir fod Iesu Grist yn cael ei alw yn 'Air Duw yn bendant yn y Dadguddiad.' Gwir, 'gair Duw ydyw ef,' ac am hynny nid Duw ei hun—Dadguddiwr gair Duw ydyw, ac am hynny y mae yn cael ei alw yn air Duw; yn yr un modd ag y cafodd Moses ei wneuthur yn Dduw i Pharaoh; ac fel hyn, fe roddodd yr Iesu i'w Apostolion y gair yr hwn a roddodd Duw i Grist; ac yr ydoedd y rhai hynny yn 'air Duw' neu yn bregethwyr ei air ef i'r holl fyd. Mae holl gymmedrolder (analogy) yr Ysgrythyrau gan hynny yn profi mai yr Efengyl sydd i'w deall wrth y gair *(logos)* yng nghyntaf Ioan, am yr hon yr ydoedd ef yn myned i ysgrifennu hanes."

J. O.

Clonmel, 26th o Ebrill, 1841.

DUWDOD CRIST.—Lythyr x.

IACHAWDWR.

Mr. Ymofynydd.—Y teitl nesaf a briodolir i Grist, yw Iachawdwr. 2 Tim. i. 10.—"Eithr a eglurwyd yr awr hon trwy ymddangosiad ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr hwn a diddymodd angeu, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl."

Dywed *Carlile* fel hyn—"Yr wyf yn dal fod y teitl *Iachawdwr*, yn y modd hollol a phwysig y mae'n cael ei roddi i'r Arglwydd Iesu, a hynny hefyd mewn ystyr grefyddol gyda golwg ar iechydwriaeth yr enaid, yn deitl nas gallasai heb eulun-addoliaeth gael i roddi i un creadur."

Er hynny i greadur y mae'n cael ei roddi, pan yn cael ei roddi i'n Harglwydd Iesu Grist; sef cyntaf-anedig pob creadur, medd Paul. Yr ydym yn cael hefyd fod gwladgarwyr yn aml yn cael y teitl hwn dan yr hen oruwchwyliaeth. Y maent yn cael eu galw yn Achubwyr, *saviours*, neu iachawdwyr. Neh. ix. 27.—"Yn ol dy aml dosturiaethau rhoddaist iddynt achubwyr (*saviours*, iachawdwyr), y rhai a'u hachubasant o law eu gwrthwynebwyr." Isa. xix. 20.—"Ac efe a anfon iddynt *iachawdwr* a phenaeth, ac efe a'u gwared hwynt. Gwel hefyd Obad. 21; Barn. iii. 9, 15; 2 Bren. xiii. 5. Os gallasai y rhai'n gael eu galw 'n achubwyr neu iachawdwyr, mwy o lawer y gallasai Iesu Grist, yr hwn sydd yn achub oddiwrth bechod a marwolaeth.

Fel yr oedd yr achubwyr gynt yn offerynau yn llaw Duw, wedi eu danfon ganddo; felly hefyd offeryn yn llaw Duw, wedi ei ddanfon ganddo, ei gyfodi a'i dderchafu i fod yn *Iachawdwr* oedd Crist, yn ol iaith bendant yr ysgrythyrau. Act. v. 31. Hwn a *derchafodd* Duw a'i ddeheulaw, yn Dywysog ac yn *Iachawdwr*, i roddi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau;" xiii. 23.—"O had hwn [Dafydd] *Duw* yn ol ei addewid a *gyfododd* i Israel yr *Iachawdwr* Iesu." 1 Ioan iv. 14,—"A ninnau a welsom ac ydym yn tystiolaethu, ddarfod i'r *Tad ddanfon* y *Mab* i fod yn *Iachawdwr* i'r byd." Ioan iii. 17,—"Oblegid ni *ddanfonodd* Duw ei Fab i'r byd i ddamnio'r byd, ond fel yr achubid (*save*) y byd trwyddo ef." Iaith mwy eglur na hon nis gellir ei chael, i ddangos yr achos dechreuol o'r iechydwriaeth trwy Grist. Iachaw-

dwr wedi ei ddanfon a'i dderchafu gan arall i roddi iechydwriaeth a maddeuant pechodau i ddynolryw, nis gall fod yn Dduw yn sicr. Gwas Duw, anfonedig y Tad, ac nid Duw, oedd Iesu Grist ein Hiachawdwr ni.

Y mae'r teitl ardderchog a phwysfawr hwn, yn ei ystyr ddechreuol a goruchel, yn perthyn i'r Tad yn unig. Isa. xliii. 11,—Myfi, myfi yw yr Arglwydd, ac nid oes *geidwad (saviour)* ond *myfi*;" xlv. 21,—"Onid myfi yw yr Arglwydd, ac nid oes arall ond myfi, yn Dduw cyfiawn; ac yn achubydd *(saviour)* nid oes *ond myfi.*" Hosea xiii. 4,—"Eithr myfi yw yr Arglwydd dy Duw, a'th ddug di allan o dir yr Aifft; ac ni chai gydnabod Duw *ond myfi*, ac nid oes *Iachawdwr ond myfi.*" Luc i. 47,—"A'm hyspryd a lawenychodd yn Nuw fy Iachawdwr." 1. Tim. i. 1,—"Paul Apostol Iesu Grist, yn ol gorchymyn Duw ein Hiachawdwr, a'r Arglwydd Iesu Grist ein gobaith;" iv. 10,—"Oherwydd i ni obeithio yn y Duw byw, yr hwn yw Achubydd (saviour, Iachawdwr) pob dyn, ond yn enwedig y ffyddloniaid." Gan mai Duw yn unig sydd Iachawdwr, ac mai efe yw achubydd POB *dyn*, amhosibl fod neb arall gydag ef, yn yr un ystyr, yn Iachawdwr. Er hynny gwelwn fod ystyr yn yr hon y gellir cymhwyso'r teitl Iachawdwr i'n Harglwydd Iesu Grist. Er fod Duw yn cael ei osod allan yn achubydd *pob* dyn, ac felly nad oes neb i gael ei achub ond ganddo ef yn yr ystyr uchelaf o'r gair; etto gosodir Crist allan yn achub dynolryw ac ereill hefyd. Iago. v. 20,—"Gwybydded, a bydd i'r hwn a drodd bechadur, *gadw* (*save*) enaid rhag angau." Dyma gadw, a chadw enaid hefyd, ïe a'i gadw rhag angau. Y mae'r hwn a drôdd bechadur yn offeryn yn llaw Duw i achub pechadur, ond gyda Duw y mae'r iechydwriaeth wedi dechreu; oddiwrtho ef y tarddodd hi. Duw yw'r achos, dyn yr offeryn; felly hefyd yn gymmwys yw ein Harglwydd Iesu Grist.

Feallai y bydd i hyn ymddangos yn fwy eglur i rai, trwy gydmaru'r mannau hynny lle y mae Duw a Christ yn cael eu galw yn Iachawdwyr. Titus iii. 4, 6,—"Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad ein Hachubwr *(Saviour, Soteros)* tuag at dyn * * * Yn ol ei drugaredd yr achubodd efe ni trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân; yr hwn a dywalltodd efe arnom ni, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr (*Soteros*);" i. 3, 4, a ii. 10, 13,—"Eithr mewn amseroedd priodol efe a eglurhaodd ei air trwy bregethu, am yr hyn yr ymddiriedwyd i mi, yn ol gorchymyn Duw ein *Hiachawdwr* ni * * * Fel yr harddom athrawiaeth Duw ein *Hiachawdwr* ymhob peth * * * Gan ddisgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw Mawr a'n Hiachawdwr Iesu Grist." Mae'n amlwg oddiwrth y difyniadau uchod mai oddiwrth Dduw ein Hiachawdwr, trwy Grist ein Hiachawdwr, y mae'r iechydwriaeth yn dyfod, ac nad yw yr un gair ddim i'w gymeryd yn yr un ystyr, pan yn gyssylltiedig a gwrthrychau mor wahanol a Duw a dyn. Mae Duw yn Iachawdwr yn yr ystyr uchelaf o'r gair fel yr achos o honi, a Christ yn Iachawdwr fel yr offeryn i ddwyn yr iechydwriaeth honno i ni. Y mae'r enw yn perthyn i Grist oddiwrth ei swydd yn unig.

Dywed *Professor Stuart.*—Os oedd Crist yn meddu ar natur ddynol mewn gwirionedd, beth sydd yn fwy cysson a natur a duwioldeb, nag y byddai iddo ymddwyn yn y dull a ddesgrifir yma, neu y byddai iddo gael ei dderchafu i ogoniant, fel gwobr am ei weithredoedd, a chael ei wneuthur yn Iachawdwr i'r bobl."—Dywed Piscator mai "yr achos cynhyrfiol ag effeithiol o'n hiechydwriaeth yw Duw'r Tad, yr hwn y mae'r Apostol yma (1 Tim. i. 1.)

yn alw'n Iachawdwr."—Grotius yn fwy fyth i'r pwrpas. "Crist ein Hiachawdwr.—Y teitl a roddwyd gan yr Apostol i Dduw, a roddir ganddo yn awr i Grist oherwydd beth bynnag sydd yn perthyn i'n hiechydwriaeth a gyflawnwyd gan y Tad trwy Grist, a pha beth bynnag a wnaeth Crist, oedd trwy orchymyn y Tad."

DELW DUW.

2 Cor. iv. 4; Col. i. 15; Heb. i. 3.—"Fel na thywynai iddynt lewyrch efengyl gogoneddus Crist, yr hwn yw *delw Duw*.—Yr hwn yw *delw y Duw anweledig*, cyntaf anedig pob creadur.—Yr hwn ac efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef."

Yr ymresymiad trindodaidd.—"Wrth gydmaru y rhai'n a'u gilydd, yr ydym yn cael ein harwain yn naturiol i gasglu fod Iesu Grist yn ddelw Duw o ran ei fod yn meddu'n hanffodol ar ogoniant, priodoleddau, a pherffeithderau dwyfol."—*Geo. Holden.*

Rhyfedd, rhyfedd! Nid oes neb wrth weled pictiwr neu lun un dyn yn *hongian* mewn ystafell, erioed wedi dychymyg mai'r person ei hun yw'r pictiwr: dim erioed, meddaf. Na, y mae dynion yn gallach na hyna mewn pethau a berthynant i'r byd hwn. Pan yn siarad am Dduw, y taflant reswm ymaith, er mai yma y mae fwyaf o'i eisiau. Os delw Duw yw Crist, pa fodd y gall fod yn Dduw hefyd? A ydyw dywedyd mai delw Duw ydyw, ddim yn ddigon, heb eisiau rhagor, i ddangos nad Duw ydyw?

Yn yr ystyr gyfyngaf o'r gair nid oes bossibl fod delw i Dduw oll. Llun anfeidroldeb, holl-bresenoldeb, &c., pwy all ei dynnu? Felly pan ddywedir fod un peth ar lun Duw, megis Adda gynt, a ninnau etto, a Christ yn fwy na neb, y meddwl yw fod yno ryw debygolrwydd mewn cynheddfau dealltwriaethol, neu berffeithrwydd moesol. Onide, os yw Crist mewn ystyr llythyrenol yn wir lun person Duw, yna, mor sicr a hynny, y mae y rhai a addolant yr Iesu, delw neu lun Duw, yn torri yr ail orchymyn, yr hwn sydd yn gwarafun addoli "delw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y *nefoedd uchod*, nac ar y ddaear isod."

Yr wyf fi yn sylwi ymhellach, fod *dynion* hefyd wedi eu gwneuthur ar ddelw a llun Duw, fel y soniais yn barod. Gen. i. 26.—"Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain; (v. 1.) Yn y dydd y creodd Duw ddyn, ar *lun* Duw y gwnaeth efe ef; (ix. 6.) A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau, oherwydd ar *ddelw* Duw y gwnaeth efe ddyn." Felly os ydyw gwaith Crist yn cael ei alw yn ddelw Duw, yn ei wneuthur ef yn wrthrych addoliad, felly hefyd Adda, a dyn yn gyffredin: ond y mae'r ail orchymyn yn erbyn addoli yr hen Adda druan, er cael ei alw yn ddelw Duw, a phob delw arall gydag ef, a Christ ei hun yn eu plith hefyd, gan mai delw Duw, ac nid Duw ydyw. Ond efallai y dywedir mai nid mewn ystyr grefyddol mae cymmeryd y geiriau uchod. O'r goreu, ni awn yn awr at ryw beth tebyg iawn i ystyr grefyddol. 1 Cor. xi. 7.—"Canys gwr yn wir ni ddylai wisgo am ei ben, am ei fod yn *ddelw a gogoniant* Duw." Rhuf. viii. 29.—"Oblegid y rhai a ragwybu efe a ragluniodd efe hefyd i fod yn un *ffurf a delw* ei Fab ef, fel y byddai ef yn gyntaf anedig ymhlith brodyr lawer." 1 Cor. xv. 49.—Ac megis y dygasom *ddelw* y daearol, ni a dygwn hefyd *ddelw* y *Nefol*. 2 Cor. iii. 18.—Eithr nyni oll ag wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd, megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw *ddelw* o ogoniant i ogoniant. Col. iii. 9, 10,—Gan ddarfod i chwi ddiosg yr *hen* ddyn ynghyd a'i weithredoedd, a gwisgo'r

newydd yr hwn a adnewyddir mewn *gwybodaeth*, yn ol *delw* yr hwn a'i creodd." A ydyw ddim yn amlwg beth sydd i ddeall wrth ddelw Duw? Tebygolrwydd moesol i Dduw; bod yn gyffelyb iddo mewn purdeb, sancteiddrwydd, cyfiawnder, maddeugarwch a chariad. A phwy fu erioed yn fwy tebyg i Dduw na'r Iesu yn y perffeithderau yma? Cariad oedd ei anian, maddeu oedd ei waith.—Y mae yr hyn a ganlyn o waith Philo, yr Iuddew dysgedig, yn dangos meddwl ei hiliogaeth efa ry pwngc dan sylw. "Mae pob dyn," ebefe, "o ran ei ddealltwriaeth yn ymgyfathrachu a'r rheswm dwyfol, yn ddelw argraphedig, neu grynhodeb, neu ddisgleirdeb y natur ogoneddus."

"Ymddengys," medd Whitby, "fod Crist yn cael ei alw yma yn ddelw Duw, nid fel Duw o Dduw; ond yn hytrach, fel y mae'r testun yn gosod allan, mewn perthynas i'r efengyl, a'i swydd gyfryngol, yn yr hon y mae wedi rhoddi i ni y fath arddangosiad gogoneddus o allu, doethineb, sancteiddrwydd, purdeb, cyfiawnder, trugaredd, daioni a dyngarwch Duw. Fel yr adnabyddir dyn wrth ei ddelw, neu lun, felly, y mae gallu, doethineb a daioni Duw i'w canfod trwy yr hyn a wnaeth ac a ddysgodd Crist."—Y mae Beza o'r un farn, ac yn beio'r hynafiaid am gasglu perthynas gyd-gyfranogol y Tad a'r Mab oddiwrth y geiriau dan sylw.—Jacob Abbot a ddywed—"Y mae Duw yn ymddangos yn yr haul fflamllyd, yn y seren gynffonog danllyd, yng ngwyrddlasni blodeuog gwledydd helaethion y ddaear. * * * Ond yma (sef yng Nghrist) y gwelwn arddangosiad o'r Duwdod, delw y Duw anweledig."—Calvin yntau a ddywed fel hyn; "Mae'r ymadrodd *Delw y Duw anweledig*, pan yn cael ei gymhwyso i Grist, i'w ddeall, nid cymmaint am ei gydsylweddiad a'r Tad, ag am ei berthynas a ni, fel cynrychiolwr ei Dad. Mae'r Tad yn cael ei alw yn anweledig, oherwydd nas gall ynddo ei hun gael ei amgyffred gan feddwl dyn; ond trwy ddangos ei hun yn ei Fab, y mae yn y modd hwn yn weledig. Yr wyf yn dywedyd hyn, oherwydd i'r hynafiaid, pan yn cael eu *cario* ymaith gan eu zel yn erbyn yr Ariaid, wneuthur mwy o'r rhan hon nag oedd iawn, gan ddysgu fod y Mab yn ddelw y Tad yn fewnol *(inwardly)*, trwy undeb dirgeledd hanfod; ac yn gadael allan yr hyn oedd yn fwy addysgiadol, sef, ei fod yn ddelw Duw i ni, pan yr eglurhaodd yr hyn, oni bai hynny, fuasai yn guddiedig ynddo." Ymhellach etto dywed; Nid oedd yr Apostol yma (Heb. i. 3.) yn bwriadu amlygu pwy debygolrwydd mewnol sydd rhwng y Tad a'r Mab; ond dysgu i ni y mae yr hyn sydd er adeiladaeth ein ffydd, nas gall Duw gael ei adnabod mewn un ffordd arall ond yng Nghrist."

FFURF DUW, *morphe Theou.*

Phil. ii. 6. "Yr hwn ag efe yn ffurf Duw." Yr un peth sydd i ni ddeall wrth ffurf a delw Duw; ac os yw'r ymadrodd ffurf Duw yn profi duwdod Crist, gwna ei waith ef yn gymmeryd arno *agwedd*, ffurf, *morphe*, gwas brofi hefyd mai caethwas oedd ac nid Duw. Yn yr un bennod yr ydym yn cael i'r Iesu ddibrisio ei hun, neu ymarllwys, neu ymwaghau a chymeryd arno ffurf caethwas. Beth bynnag, gan hynny, oedd ef o'r blaen, wedi iddo ymarllwys o hono, nis gall fod felly mwy. Os o'i Dduwdod yr ymarllwysodd, fel y dywedodd un yn dal swydd bwysig wrthyf yn ddiweddar, yna nid oedd yn Dduw wedi iddo ymarllwys. Llestr llawn, wedi yr arllwysir, nid llawn mwyach. Yr ydym yn darllen yma hefyd fod Duw, am i'r Iesu ddarostwng ei hun, wedi ei *dradyrchafu*, fel y byddai yn Arglwydd er *gogoniant Duw Dad*. Y meddwl yw hyn; Er fod Iesu yn ffurf Duw, yn Ddelw

Duw, ni thybiodd mai egwyddor dreisiol oedd bod yn debyg i Dduw. Er mwyn eraill y gwnaeth yr holl wyrthiau ; dim braidd er ei fwyn ei hun; ymarllwysodd, hynny yw, ni wnaeth un gwyrth er mwyn ei dderchafu ei hun, ond er mwyn achub eraill.

Y mae Whitby yn ymwrthod a'r dyb a gasgla dduwdod Crist oddiwrth yr ymadrodd hyn, ac yn cadarnhau ei dyb trwy resymau rhy faith eu crybwyll yn bresenol—"Nid yw hyn, medd Milton, ddim yn profi mwy ei fod ef (Crist) yn Dduw nag y mae'r ymadrodd sy'n canlyn"—*A gymmerodd arno agwedd gwas*, yn profi mai caethwas oedd mewn gwirionedd ; gan nad yw'r ysgrifenwyr Santaidd mewn un man yn arfer y gair ffurf am fodolaeth wirioneddol. Ond os y dadleuir fod ffurf Duw yma yn cael ei gymmeryd mewn ystyr philosophaidd, am ffurf hanfodol, nis gellir gochelyd y canlyniad, ddarfod i Grist, pan y gosododd heibio y ffurf yma, osod heibio hefyd sylwedd a grym Duw : athrawiaeth yn erbyn yr hon y maent yn ardystio *(protest)*, ac yn gyfiawn. Bod yn ffurf Duw, gan hynny, sydd yn ymddangos ei fod yn gyfystyr a bod ar ddelw Duw, yr hyn sydd yn fynych yn cael ei arfer am Grist fel y mae hefyd am ddyn, ond mewn ystyr llawer îs, ei fod yn ddelw Duw, ac ar ddelw Duw, hynny yw, trwy greadigaeth.

CYFRYNGWR, EIRIOLWR.

Heb. xii. 24. "Ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd ; (ix. 15,) Ac am hynny, y mae efe yn Gyfryngwr y Testament Newydd ; (viii. 6). O gymmaint ag y mae efe yn Gyfryngwr cyfammod gwell. 1 Ioan ii. 1. Ac o phecha neb y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn."

Dadleuir yn gyffredin fod yn rhaid fod Iesu Grist, fel Eiriolwr dros bechaduriaid, a chyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn Dduw a dyn : yn Dduw i atteb Duw, a dyn i fod yn ei sefyllfa yntau. Y mae'r twyll ymresymiad hwn wedi tarddu oddiwrth y ffaith mai dynion sydd yn cael eu dewis i fod yn gyfryngwr ac eiriolwyr rhwng dynion a'u gilydd : ac felly fod y cyfryngwyr yr un natur a'r partiau ymrafaelgar. Ond derfydd hyn pe byddai anifail yn droseddwr yn lle dyn. Beth pe gwelem ddyn yn *abuso* ei gi neu ei geffyl am ryw drosedd a wnaeth ; a fyddai yn rhaid i ni fod yr nn natur a'r ddau barti cyn y gallem eiriol yn llwyddianus dros y ci neu'r ceffyl ? Na, nid felly, gredaf fi, eithr pe byddai yr Eiriolwr yn cyfranogi o nattur y ddwy ochr, dyma'r unig ffordd iddo fethu llwyddo.

Mae'r dyb hon yn croesi iaith bendant yr Ysgrythyrau. 1 Tim. ii. 5,—"Un Duw sydd ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y DYN *Crist Iesu*." Wel, dyma hi yn lan o'r diwedd ! Beth, Paul, a oes dim cywilydd arnat ti, i ddywedyd nad yw'r Cyfryngwr Mawr ddim rhagor na dyn ? A wyddost ti ddim fod yn rhaid fod Cyfryngwr cuwch a Duw, ac mor iseled a dyn, onide ni thyccia fe ddim ? Mae Paul yn fud ! O, nac ydyw yn wir ; ei atteb yw, —"Y dyn Crist Iesu." Yr ydym yn cael etto fod eraill wedi bod yn gyfryngwyr heblaw Crist. Gal. iii. 19,—"A hi (y ddeddf) a drefnwyd trwy angylion, yn llaw cyfryngwr." Pwy oedd y cyfryngwr yma ? Moses, medd Crist, Ioan vii. 19,—"Oni roddes *Moses* i chwi y gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith ; (i. 17) Canys y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist." A oes rhyw un yn barod i atteb, mai cyfryngwr y *gyfraith* oedd Moses ? Yr wyf finnau mor barod a hynny a'm hatteb innau, mai Cyfryngwr y Cyfammod Newydd oedd Crist hefyd. Mae'n wir ei fod yn gyfammod gwell na'r hen

un a ddaeth trwy Moses; er hynny cyfryngwr cyfammod oedd Moses, a chyfryngwr cyfammod oedd Crist hefyd. Ac y mae gwaith y Cristion yn rhyw beth tebyg iawn i hyn, fel ei gosodir allan gan Paul; 2 Cor. v. 18, 20, —"Sef, bod Duw yng Nghrist yn cymmodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac wedi gosod ynom ni air y cymmod. Am hyny, yr ydym *ni yn genhadon* dros Grist; megis pe byddai Duw yn deisyf arnoch *trwom ni* (fel cyfryngwyr, bid sicr); yr ydym yn erfyn dros Grist, cymmoder chwi â Duw. Drachefn, os wrth eiriol y meddyler gweddio dros rai, yr oedd Crist yn gwneuthur hyn ar y ddaear. "O, Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur." Mae'r Iesu a'i Apostolion yn gorchymyn i'r dysgyblion wneuthur yr un peth; Mat. 5. 44,—"Gweddiwch dros y rhai a wnel niweid i chwi." 1 Tim. ii. i,—"Cynghori yr wyf ym mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddiau, deisyfiadau *(intercessions)* a thalu diolch dros bawb. Yr oedd yr hen Batriarchiaid a'r prophwydi yn eiriol dros eraill hefyd. Y mae Abraham yn eiriol dros Sodom yn Gen. xviii. 23—33.—Moses dros yr Israeliaid yn Num. xiv. 13, 17, 19, 20; xxi. 7,—"A daeth y bobl at Moses, a dywedasant pechasom * * * yn erbyn yr Arglwydd ac yn dy erbyn dithau; gweddia ar yr Arglwydd ar yrru o hono ef y seirph oddiwrthym. A gweddiodd Moses dros y bobl." Y mae Elias yn eiriol am wlaw, ac yn ei gael; 1 Bren. xviii. 41—45. Elisëus trwy weddi yn dychwelyd mab y Sunamees o farw i fyw. Er hynny, nid yw Crist yn cyfarwyddo ei ddisgyblion i geisio ganddo ef i weddio ar y Tad drostynt; ond i'r gwrthwyneb y mae yn dywedyd, hyd yn oed wrth yr Apostolion, (Ioan xviii. 23,) "A'r dydd *hwnnw* ni ofynwch *ddim* i mi; (adn. 26,) Y dydd hwnnw y gofynwch yn fy enw, ac nid wyf yn dywedyd i chwi y *gweddiaf* fi ar y Tad *trosoch*, canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi." Felly nid trwy weddio ar y Tad, fel yr ofer siarada rhai, y mae Crist yn cyflawni ei swydd fel Eiriolwr; ond efe yw ein Diddanydd, ein *Counsellor* ni gyda'r Tad—yn dangos fod ein hachos ni yn dda. *Clients* yr Iesu y'm ni. A ga'i fy nerbyn, ar fy edifeirwch, medd y *client?* Cai; mae'r *King's counsel* wedi dywedyd hynny. A ga'i fyw, medd y truan sydd dan farn marwolaeth? Cai; mae'r Eiriolwr—y Diddanydd—wedi dwyn *reprieve* i ti oddiwrth y Brenhin, trwy garchar angeu ei hun. Mae i ni eiriolwr, diddanydd gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; a'i iaith hyfryd yw—"Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Mae achos y pechadur edifeiriol yn eithaf da ynte, na wan-galonwn.

Archesgob Tillotson.—"Mae crefydd yr Apostolion a'r Crist'nogion cyntaf yn dysgu i ni yn bendant, nad oes ond un gwrthrych addoliad, ac un Cyfryngwr, trwy yr hwn y mae i ni anfon ein deisyfiadau at Dduw. Un Duw sydd, Cyfryngwr rhwng Duw a dynion—y dyn Crist Iesu, medd Paul, lle y mae yn rhoddi rheol sefydlog mewn perthynas i weddi yn yr Eglwys Gristnogol."

Limborch.—"Dadleuir mai ein Harglwydd oedd Cyfryngwr yr hen gyfammod, o herwydd, y dywedir yn bendant, nad oes ond *un* Cyfryngwr rhwng Duw a dynion—y dyn Crist Iesu. Ond os y DYN Crist Iesu yw yr un Cyfryngwr, mae'n sicr nas gallasai fod yn gyfryngwr yr hen gyfammod, oblegid nid oedd yn ddyn pan cyhoeddwyd y gyfraith. Mae'r Apostol yn wir yn dywedyd mai Crist yw yr unig Gyfryngwr i gaffael i ni faddeuant tragywyddol, yr hwn sy'n cael ei osod allan trwy rinwedd y cyfammod newydd yn unig; etto nid yw hyn ddim yn un rheswm pa'm na ddylai cenhadon eraill

gael eu galw yn gyfryngwyr, y rhai a weiniasant rhwng Duw a dynion, trwy draddodi gorchymynion y Duwdod iddynt."

Da fyddai gennym roddi ei sylw i gyd, lle y mae yn dangos mai Duw yw'r achos o'n iechydwriaeth, a Christ yn offeryn i'n dwyn ni at yr iechydwriaeth honno; ac mai fel dyn yr oedd Crist yn cyflawni holl rannau ei swydd. Ond gwelaf fod fy mhapur i, a'ch dalenau chwithau, *Mr. Ymofynydd*, yn dywedyd paid, wrthyf: felly ffarwel unwaith etto, medd eich hen gyfaill chwi a'r *Ymofynydd*.

O. Evans.

EMYN O WAITH IOLO MORGANWG.

Un o 22ain a argraphwyd yn 1814.

*Amddasmal y tywyllwch du
Gan ymbalfalu'n ddeillion,
Mac plant y byd, pob un ar frŷs
Am borthi blŷs ei galon.

Am gael goludoedd hyn o fyd,
Holl falchder bywyd cnawdol;
A chyda'r crug o'i ffiaidd lwch
Am gael dedwyddwch nefol.

Nid trwy gyfiawnder y mae ef,
Am gael y Nef a'i gwynfyd;
Ond lledrith yn greulonder maith,
Yw sail ei obaith ynfyd.

*to grope.

Trwy fath o Dduw sy'n tywallt bâr
Am benn y gwâr a'r gwirion,
Duw anfaddeugar, Duw di hedd,
Yn dduw'r diglionedd creulon.

O'r cyfiawn mawr! trugarog Dad!
Llawn cariad a thangnefedd;
O maddeu'r amlwyll sy mor ffol
Yn cablu 'th nefol fawredd.

Un sydd a'i drugareddau'n faith
Yn coledd gwaith ei ddwylaw,
Hwn yw'n Duw ni, O bydded mawl
Byth yn dragwyddawl iddo.

EGLWYS LOEGR.—Llythyr viii.

Y tansgrifiad gofynedig.—(parhad).

Profwyd yn niwedd yr ysgrif ddiweddaf fod pob offeiriad perthynol i'r Eglwys Sefydledig yn cael ei orfodi i ddywedyd a thansgrifio hefyd, "nad yw'r *Common Prayer* yn cynnwys ynddo ddim yng ngwrthwyneb i Air Duw;" a bod pob un o'r "namyn un deugain Erthyglau yn gyttunol â gair Duw;" a'i fod yn ymrwymo i gymeryd a deall pob brawddeg cynwysedig yn y Llyfr Gweddi a'r Erthyglau "yn ystyr y llythyren a'r grammadeg." Gymaint a caethiwed meddyliol y mae Offeiriaid yr Eglwys Barlamentol yn ymddarostwng iddo; mor lluosog ac mor drymion y llyfetheiriau, nid ar gyrff, ond ar feddyliau a chydwybodau pawb, o'r Archesgob ar ei orsedd i lawr hyd at y *curat* tlottaf yn y wlâd! "Dim yng ngwrthwyneb i Air Duw," yn yr holl Gommon Prayer, yn ei seremoniau, a'i ffurfwasanaeth! Gwyrth nodedig, pe buasai'r haeriad yn wir. A orchmynir yn un mân yn yr Ysgrythyrau, unig dywysydd pob Cristion, i ddynion i addoli tua'r dwyrain? neu i blygu pen bob tro y mae enw'r Iesu yn cael ei grybwyll, neu i wneuthur llûn y groes ar dalcen plentyn wrth ei fedyddio, neu i wrthod y Cymmun i bawb na elo ar ei liniau wrth ei dderbyn? A ellir profi ysgrythyroldeb yr athrawiaeth o Adenedigaeth trwy Fedydd, neu y seremoni niweidiol o Gonffirmasiwn, neu roddiad yr Yspryd Glân trwy arddodiad dwylaw Esgob

wrth urddo Offeiriaid, neu yr awdurdod hawliedig yn y drefn i ymweled â'r claf i roddi iddo ollyngdod oddiwrth ei bechodau os efe a ddymuna hyny, neu yr ymadrodd arferedig yn nhrefn claddedigaeth y marw o "wir ddiogel obaith o'r adgyfodiad i fywyd tragwyddol," hyd yn ôd i'r dihyryn mwyaf ysgeler a waradwyddodd ddaear Duw erioed; a ellir amddiffyn yr holl rai hyn, neu un o honynt, trwy appelio "at y gyfraith ac at y dystiolaeth?" A oes dim lle i amrywiaeth barn parth priodoldeb y pethau yma? ac a ydyw ddim o'r arferiad ohonynt wedi cael ei feio'n gyhoeddus gan lawer o'r Offeiriaid eu hunain, rheiny yn rhai o addurniadau dysglaeriaf yr Eglwys? Etto i gyd y mae pob Offeiriad, nid yn unig wedi dweyd, ond wedi cyhoeddi, nid yn unig wedi cyhoeddi, ond wedi arwyddo'r cyfryw gyhoeddiad â'i Enw a'i Arenw, nad oes dim un o'r seremoniau, dim un o'r arferiadau, dim un o'r athrawiaethau yma, "yng ngwrthwyneb i Air Duw!"

Gellir cynyg gofyniadau cyffelyb mewn perthynas i'r Erthyglau etto. Dywed y trydydd Erthygl,—"Megis y bu Crist farw drosom, ac y claddwyd ef; felly hefyd y mae i'w gredu, iddo ddisgyn i *uffern*." Os yw hwn i'w gymeryd, fel y gorchymynir yn y cyhoeddiad Breninol, yn ei ystyr lythyrenol a grammadegol, yna y mae yn arwyddo i Grist mewn gwirionedd fyned i drigle'r damnedigion; a diau mai felly yr oedd ei awdwyr yn ei ddeall. Y pedwerydd a ddywed—"Crist a wir-adgyfododd o feirw, ac a gymerodd drachefn ei gorph, gyda *chnawd ac esgyrn*, a phob peth a berthyn i berffeithrwydd naturiaeth dyn; *â'r hyn* y dyrchafodd efe i'r Nefoedd;" ac felly yn gwrthwynebu geiriau Paul yn 1 Cor. xv. 50,—"*Na ddichon* cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw." Y chweched sydd yn traethu am yr "Ysgrythyr Lân," ei bod yn gynwysedig o'r "cyfryw Lyfrau canonaidd o'r Hen Destament a'r newydd, a'r na *bu erioed* ddim ameu yn yr eglwys am eu hawdurdod;" ond, os coelir Hanes Eglwysig, *bu* ameuaeth yn cael ei lettya am hir amser, pa un ai oedd yr Epistol at yr Hebreaid, ail epistol Pedr, ail a thrydydd Epistol Ioan, Epistol Judas, a'r Datguddiad, yn meddu hawl digonol i gael eu rhestru ymhlith yr Ysgrifeniadau Sanctaidd. Eto, yn ol yr wythfed erthygl—"Y tri chredo, sef, Credo Nicea, Credo Athanasius, a'r hwn a elwir yn gyffredin Credo'r Apostolion, a ddylid yn gwbl eu derbyn a'u credu," er eu bod yn gwrthwedyd eu gilydd, yn croesi'r ail a'r trydydd erthygl, ac yn llwyr groes i wirionedd a chariad yr efengyl. Ond i frysio ymlaen, dywed y nawfed erthygl—"Ac am hyny ym mhob dyn a enir i'r byd hwn, yr haeddai ddigofaint Duw, a damnedigaeth." Y ddeunawfed sydd yn cyhoeddi dinystyr tragywyddol yr holl fyd cenedlig, gan ddywedyd,—"Y mae yn rhaid hefyd cyfrif yn felldigedig y sawl a ryfygant ddywedyd y bydd pob dyn yn gadwedig trwy'r gyfraith, neu'r sect y mae yn ei phroffesu, os bydd efe ddiwyd i lunio ei fuchedd yn ol y gyfraith honno, a goleuni nattur." Y mae yr ugeinfed erthygl yn haeru fod—"i'r Eglwys allu i osod defodau a seremoniau, ac awdurdod mewn ymrafaelion ynghylch y Ffydd." Y mae y ddeunawfed ar hugain, ymhlith amrywiol bethau ereill, yn traethu am gyfreithlondeb rhyfeloedd a chospedigaethau marwol (*capital punishments*) yr hyn a ameuir yn y dyddiau presenol gan nifer luosog o Gristnogion o bob enwad. Dywed—"Fe ddichon cyfreithiau'r deyrnas gospi Christnogion âg angau, am feiau ysgeler trymion;" ac etto, "Y mae'n gyfreithlon i Gristnogion, wrth orchymyn y llywodraeth, wisgo arfau, a gwasanaethu mewn rhyfeloedd." Mae yr holl erthyglau at y rhai y cyfeiriwyd uchod yn cynwys pynciau dadleuedig, ac y mae'n eithaf adnabyddus fod amryw o offeiriaid

yr Eglwys sefydledig yn mynwesu gwahanol olygiadau yn eu cylch; er hyny y mae pob un o honynt wedi cael ei orfodi i dansgrifio cyhoeddiad, a gorfodir ef eto i'w ail-dansgrifio, os byth y caiff un dyrchafiad yn yr Eglwys, fod y cyfan "yn gytunol a Gair Duw."

Un peth o ddygwyddiad diweddar yn Lloegr, a ddengys gymaint y mae'r Tansgrifiad gofynedig yn ymyraeth a dyledswyddau cyhoeddus yr offeiriaid, eu dyledswyddau tuag at eu gwlad ac at ddynoliaeth, eu dyledswyddau fel dyngarwyr a diwygwyr. Un o gyfeisteddwyr Cymdeithias Llundain er dyddymu cospedigaethau marwol yw y Parch. Thomas Pyne, A. C., Periglor Hook, Surrey. Mae'n amlwg ei fod yn teimlo dyddordeb mawr yn yr achos hwn, oblegid y mae, nid yn unig yn aelod o bwyllgor Llundain, ond hefyd wedi cyhoeddi darlith rhagorol mewn amddiffyniad o hono. Hefyd bu Mr. Pyne yn y "Cyfarfod Heddwch," a gynaliwyd yn ddiweddar yn Paris, Prif-ddinas Ffrainc; a diau ei fod yn teimlo awyddfryd mawr dros lwyddiant yr achos fel y gwelir, nid yn unig oddiwrth y draul a'r lludded cydfynedol â thaith mor belled, ond hefyd oddiwrth ei waith yn traddodi araeth ar yr achlysur. Yn awr sylwer i gymaint o anghysondeb y mae'r gwrboneddig hwn wedi syrthio oherwydd y Tansgrifiad, yn *ddiarwybod* iddo eu hun! Mae'n gwrthwynebu cospedigaethau marwol, dywed eu bod yn elymaethol i Yspryd yr Efengyl; eto, cyn ei wneuthur yn beriglor, darfu iddo yn ewyllysgar ac o'i galon arwyddo tysteb ei fod yn credu fod y namyn un deugain erthyglau, y rhai a haerant gyfreithlondeb cospedigaethau marwol a rhyfeloedd, "yn gytunol â Gair Duw;" a phe gwelai ei Esgob fod yn dda i wneuthur Archddecon ohono y fory, mwy na thebyg, yn hytrach na fforffedu y cyfryw ddyrchafiad, y gwnae arwyddo yr un tysteb drachefn. Dywedodd Demetrius gynt—"Ha wyr, chwi a wyddoch mai oddiwrth yr elw hwn y mae ein golud ni."

Mae gorfod tansgrifio y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Erthyglau yn unig, pe na byddai dim arall, yn rheswm digonol i wrthod urddau yn yr Eglwys Sefydledig, yn ddigon i gyfiawnau ein tadau am wrthod pob cyssylltiad â hi, a ninau ymneillduwyr y dyddiau presenol am barau yn yr un pellder oddiwrthi. Mae effeithiau drwg y Tansgrifiad yn aneirif. Mae'n rhwystr mawr i gynydd pob Gwirionedd Crefyddol. Mae'n eithaf dichonadwy y gellir gwneuthur Dadguddiadau newyddion mewn gwledydd dwyreiniol, a chael gwybodaeth helaethach o ddefodau ac arferiadau dwyreiniol, fel ag i daflu goleuni ychwanegol ar rai o dywyll fanau yr Ysgrythyrau; pwy wyr na ddaw Llaw-ysgrifeniadau i glawr, yn profi basdarddiaeth llawer o adnodau a ystyrir yn awr yn awdurdodol, neu ynte yn cynnwys darlleniadau mwy dealladwy nag eiddo yr argraffiad presenol; gwybodaeth mwy cyflawn o Lenoriaeth Iuddewig a ddengys efallai fod Paul yn defnyddio llawer o ymadroddion yn ei Epistolau mewn ystyr wahanol iawn i'r hyn a roddir iddynt yn awr; a llawer o bethau eraill o'r un natur a ddichon yn hawdd ddyfod i'r amlwg, o fawr bwys eu gwybod er deall y Testament Newydd yn iawn; ond y mae Offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn cael eu gwahardd i fyned un cam yn y blaen gyd â'r oes; maent wedi cael eu rhwymo i lawr wrth Lyfr Gweddi Gyffredin ac Erthyglau y flwyddyn 1562; y maent wedi cael eu tyngu i aros yn ffyddlon wrth ei holl gynwysiad, "yn ystyr y llythyren a'r grammadeg;" ac os gwyrant y mymryn lleiaf oddiwrth y cyfryw ystyr, bydded iddynt ystyried eu perygl. Pa le mae y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni?

Diau mae tamaid *goreuredig* i dwyllo'r gydwybod yw'r Tansgrifiad,—tam-

aid rhy anhawdd i lawer beidio ei chwantu. Wrth edrych yn brysur ar y canoedd haeriadau a gynwysir yn y Common Prayer ar y pynciau mwyaf dyrus mewn duwinyddiaeth, mae yn amhosibl y gall neb, gan nad pa mor ystwyth a choelgar bynag ei feddwl, eu credu oll yn wirioneddol Ond dyma un newydd ddyfod allan o Goleg Llanbedr, neu o ryw fan arall, wedi gwario yr ychydig feddianau oedd ganddo wrth barotoi ei hunan i'r Eglwys. O'i flaen ef y mae *Living* werthfawr, o'i ol y mae tlodi a'i ganlyniadau, ond rhyngddo a'r Living y mae Papyr ag sydd raid ei dansgrifio cyn myned gàm ymhellach ymlaen. Mae'n anghredu rhai pethau ynddo yn drwyadl, ac yn ameu llawer rhagor; ond y mae'r Esgob a'r Llywodraeth yn dywedyd wrtho mewn effaith os nid mewn geiriau, "rhaid iti *seinio neu starfo.*" Druan ag ef! mae'r brofedigaeth yn rhy grêf; mae ei dlodi yn drech na'i ewyllys; ac am AUR y mae'n gwneuthur llong ddrylliad o gydwybod dda.

Ond tueddir rhai efallai i ddywedyd, "mae'r caethiwed hwn yn gyfyngedig i'r Offeiriadaeth, ac nid yw o un niwed *ini, y bobl gyffredin.*" Na thwyller chwi mae ei effeithiau yn cyrhaeddyd hyd atoch chwithau hefyd. I ba ddyben yr ydych yn dewis athrawon crefyddol, yn eu talu, ac yn myned tàn eu gwenidogaeth? Onid fel y byddo iddynt roddi eu hamser, eu llafur, a'u dysgeidiaeth, er eich cynorthwyo i gael allan y gwirionedd, y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu? ond pa fodd y gallant ddyfod i wybodaeth o'r gwirionedd eu hunain, a'ch tywys chwithau ato, oddieithr *eu bod yn cael eu gadael yn hollol rydd?* Pa ham y dywedwch wrth eich athrawon, "chwiliwch ymhob man, chwiliwch yn onest, chwiliwch yn galonog, am y perl gwerthfawr hwn," a hwythau a chortynau am eu traed, yn rhwym wrth Erthyglau, Pynciau, a Chredoau, fel nas gallant droi i'r dê nac i'r aswy yn eu hymchwiliadau! Cyleh bychan sydd ganddynt i rodio ynddo, ac y mae'n berygl eu bara beunyddiol iddynt anturio myned tros y cyffiniau. Os ydych yn chwenychu dyfod i'r gwirionedd, a "chynyddu mewn gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist," rhaid i chwi adael eich athrawon i rodio heb lyfetheiriau. Na rwymer hwynt wrth ddim; na orfoder hwynt i lynu wrth eu argyhoeddiadau presenol, os oes goleuni gwell wedi llewyrchu ar eu meddyliau; bydded iddynt gyflawn fwynau "y rhyddid a'r hon y rhyddhaodd Crist hwynt," ac felly fyned rhagddynt at berffeithrwydd. Fel yma ceir purach athrawiaeth, gwell syniadau am Dduw a dyn, a gwell gwybodaeth o'r byd presenol a'r byd dyfodol.

"O bwyll i bwyll, o dawn i ddawn,
Ymlaen at bob gwirionedd awn."

T. T.

SYLW PELLACH AR SILLAFU.

MR. GOL.—Yr ydwyf yn diolch i chwi am gyhoeddi fy sylw blaenorol, er i chwi fethu fy neall yn hollol yn nghylch cyfnewidiad yr *g*; ond os rhoddwch le i'r sylw presenol, gwneir y diffyg i fynu. Dywedyd fy marn a wneuthym—nad oedd i *g* sain ysgafn, ond mai diflanu oedd, a gormesu ar y llytheren nesaf i gymeryd ei lle hi; pa un bynag ai llafariad, ai cydsain fyddai, megis y gwelir isod :—

Genedigaeth	ad-en-ed-ig-aeth	geni eilwaith
grant	am-rant	grant, ymyl
gair	an-air	

gwaen	ad-waen	
gobaith	an-obaith	
gren	a-ren	gren, math o lestr
glân	af-lân	
gyru	ag i yru	

Gwelir yn yr enghreifftiau uchod ei bod yn newid i bump o'r llafariaid, a dwy o'r cydseiniaid ; neu ei bod yn diflanu o flaen y cyfryw, ac yn gormesu arnynt i gymeryd ei lle.

A chofier mae *ng* yw arwydd ei sain chwyrn, a'i bod yn ddieithriad yn cymeryd ei sain chwyrn, ar ol y rhagenw meddianol, megis—

Grydd, fy ngrydd, &c.

Dywed yr hybarch J. Jones, fy mod yn dechreu y ddadl, trwy haeru peth anmhosibl; sef, y gellir seinio *yn mlaen* mor rhwydd ac *ym mlaen*—"ceisied y darllenydd wneuthur hyny," medd efe, "ac wrth sylwi ond ychydig, cenfydd fod yn rhaid, naill ai aros rhwng yr *n* a'r *m*, neu seinio *y* rhyngddynt, fel hyn—*yn* mlaen, neu ynte *yn-y-mlaen*."

Hybarch Gadeirdraw—A gaf fi ofyn i chwi, pa beth yw y rheswm fod yn rhaid aros rhwng yr *n* a'r *m* yn y cysylltiad yna (yn mlaen) mwy na rhwng rhyw gysylltiadau eraill? Neu a ddylem ni ysgrifenu *m* bob amser pan fyddo *n* yn digwydd nesaf o'i blaen, mal yn y geiriau rhain—

Pe*m* mawr, yn lle pe*n* mawr; ce*fm* march, yn lle ce*fn* march ; pi*m* melyn, yn lle pi*n* melyn ; trwy*m* mochyn, yn lle trwy*n* mochyn ; dy*m* mud, plenty*m* marw, &c. ; neu ynte, dyn-*y*-mud, plentyn *y* marw ; yn lle dy*n* mud, plenty*n* marw.

Dywed y Bardd fel hyn hefyd—"I'm perche*n* *m*ae mab parchus." Nid dyna fel y dywedasai Mr. Jones, o gwrs, ond fel hyn—"I'm perche*m* mae mab parchus ;" oblegid, dywed J. Jones, ei fod yn anmhosibl seinio *n* o flaen *m*, heb rhoddi naill ai *y* rhyngddynt, neu atal y llais cyhyd ag amser dryll-ymadrodd, a'i reswm ef dros hyny ydyw—"fod y genau yn agored, a'r tafod yn cael ei wasgu yn erbyn y taflod, tra y byddo yr *n* yn cael ei seinio ; ond wrth seinio *m* mae y genau yn nghaead, a'r tafod yn rhydd ; ac felly rhaid wrth seinio *m* ar ol *n* newid sefyllfa y genau ; ac os cedwir gwynt yn y corn, wrth wneuthur hyny, bydd sain yr *y* yn sicr o ddyfod i mewn rhwng y ddwy. Ac mai yr un peth yw haeru y gall dyn seinio *yn* mlaen mor rhwydd ag *ym* mlaen, a dywedyd y gall gadw ei enau yn agored, ac yn nghaead ar yr un pryd.

Yr ydwyf finau yn gofyn—Ai yr un dynged sydd i'r llythyrenau eraill, y rhai nas gellir eu seinio ond yn yr un modd ag y seinir *n*, pan digwyddont fod yn yr un cysylltiadau; os yw yn anmhosibl seinio *n* o flaen *m* heb ymatal neu ddwyn llythyren i mewn rhyngddynt—paham nad yw yr un mor anmhosibl seinio *dd* hefyd, pan ddigwyddo fod y nesaf o flaen *m*? Oblegid trwy wasgiad y tafod yn erbyn y dannedd uchaf y mae *dd* idd ei seinio, gan gadw y genau yn agored hefyd. Ai yr un peth yw dywedyd y gellir cadw y genau yn agored ac yn nghaead ar yr un pryd, a dywedyd y gellir seinio *dd* o flaen *m*, oblegid fod yn rhaid newid sefyllfa y genau ar ol seinio yr *dd*, cyn y gellir seinio yr *m* ; neu a ddylem ni gyfnewid yr *dd* i *m*, Syr, fel hyn—"A hyny oe*m* marwolaeth," yn lle "a hyny oe*dd* marwolaeth ;" ac os yw newid sefyllfa y genau ar ol seinio yr *n*, cyn y gellir seinio yr *m*, yn ddigon o reswm dros gyfnewid *n* i *m*, rhaid ei fod yn ddigon o reswm hefyd, dros

gyfnewid yr *dd*; ac nid yn unig *dd*, ond yr holl lythyrenau rhain—*d*, *da*, *n*, *s*, *t*, *th*, *c*, *ch*, *ng*, *l*, *ll*, *r*, pan fyddont nesaf o flaen *b*, *f*, *ff*, *m*, *p*, *ph*, oblegid y mae y tair cydsain ar ddeg cyntaf yn cael eu seinio yn y fath fodd, ag nas gellir seinio yr un o'r chwech cydsain ddiweddaf, pan fyddont nesaf o'u blaen heb newid sefyllfa y genau.

Efallai y bydd Mr. Jones mor hynaws ag egluro pa un a ddylid, ai newid y deintolion am y gwefysolion, neu osod llythyren i mewn rhyngddynt; oblegid mae'r genau yn agored wrth seinio y deintolion. ac yn nghau wrth seinio y gwefysolion. Ac y mae yn anmhosibl seinio y deintolion (a'r gorchfantolion hefyd o ran hyny; oblegid nis gellir eu seinio heb fod a'r genau yn agored, a'r tafod yn crybachu tua'r tafod), pan yn nesaf o flaen y gwefysolion, heb aros rhyngddynt; i'r genau a roddwyd i ddyn, yn ol dim a allaf ei ddeall oddiwrth yr hyn a ddywedwyd gan y Parch. J. Jones.

Ydwyf yr eiddoch,

MAB-ANIAN, *alias*, SAMUEL EDMUNDS.

LLYSIEUAETH—LLYTHYR III.

AMRANWEN.

(Feverfew—Matricaria Sativa)

Wermod wen, Tarfgryd,—gwahanol enwau ar yr un llysieuyn, a hoffa hen furiau a chloddiau sychion i dyfu arnynt; ond a blanir yn y ardd, yn fynych, er mwyn ei rinweddau. Y gorsen sydd grwn a chaled, yn tyfu i droedfedd neu ychwaneg o uwchder, yn ymagor, tua'r brig, i amrywiol golfenau. Y dail sydd o liw gwyrdd goleu, yn dra thoredig eu hymmylau, ac yn tyfu mewn cyflawnder o fon y gorsen i'w brig. Y blodau ydynt gynnwysedig o flodau ddail gwynion, yn amgylchu oraidd-ben melynllliw; nid yw y blodeuyn yn anhebyg mewn dull i eiddo y Gawmil. Y mae i'r llysieuyn arogl drom a neillduol, gydag archwaeth chwerw, peroglus a thwym. Y dail a'r blodau, ac yn achlysurol, yr hâd, a ddefnyddir.—Cyfrifir iddo ansawdd gwrthfamwstaidd *(antihysteric)* a gwrthgrydol, (*febrifuge*).—Y mae tê cryf wedi ei wneud o'r dail neu'r blodau, a'i felusu a mêl cliredig, yn feddyginiaeth a ganmolir yn fawr rhag yr anwyd, caethni anadl a pheswch. Rhoddir ei had i blant pan eu blinir gan lyngyr, gyda budd amlwg. Cyduna a'r Gawmil mewn amryw ansoddau, a dymunir cyfeirio y darllenydd at y llysieuyn hwnw am hysbysiad pellach ar yr un dan sylw.

ARIANLLYS.

(Fluxweed or *flixweed—Nasturtium Sylvestre.)*

Tyf hwn ar hen gloddiau &c. yn gyrs llathraidd a chrynion, i bedair neu bum troedfedd o uwchder; canghenant, tua'r brig, i amryw golfau; Y dail ydynt doredig i amryw ddarnau o ffurf crwn, a'u lliw yn llwydwyrddion. Y blodau ydynt felynion a bychain, yn tyfu yn dyswau ar flaen y colfau; yr had melynlliw a gynnwysir mewn cibau bychain meinhirion. Yn Mehefin y blodeuant. Y dail a'r had a ddefnyddir; attaliant waedrediad, dolur rhydd, clefyd y gwaed &c. yn effeithiol. Yn yr hen amser gwnelid plastr rhagorol at glymu esgyrn torredig, o had y llysieuyn hwn.

ASPYGAN.

(Little Daisy.—Bellis minor sylvestris).

Gelwir ef yn gyffredin, Llygad-y-dydd; felly, ni fyddai fy ngwaith yn desgrifio llysieuyn, blodau yr hwn a adwaenir gan blantos y gwledydd, ond cwbl ofer. Y mae i'r dail flas heliawg, gydag adflas adsur; oddi wrth hyny gellir barnu eu bod yn feddianol ar ansawdd i buro a chyfoethogi y gwaed, cadarnhau y cyfansoddiad a hwylusu yr arllwysiadau, yn enwedig o'r croen a'r bladren. Y mae te cryf o'r gwreiddau, a'i ddylyn am dro,

yn wrth-ysgyrfai *(antiscorbutic)* a ganmolir yn fawr.

Yn allanol, cymmhwysir llysblastr, wedi ei wneud o'r dail, at chwyddiadau poenus; a chair budd amlwg oddi wrtho.

BALDARDD *neu* ADDA AC EFA.

(Orchis.—Satyrion mas).

Llysieuyn tra adnabyddus i bawb ydyw hwn. Ei flodau glasgoch (weithiau cair hwynt agos wynion), a brydferthant y waun a'r wairglodd, yn misoedd Mai a Mehefin.

Tyf y llisieuyn i o chwech i wyth modfedd o uwchder, yn gorsen braffus a thyner, yn cael ei hamgylchu gan ddail hirgulion blaenfeinion, nid annhebyg i ddail cenin, ac yn agos o'r un lliw; ond fod arnynt fanau tywyll yma ac acw.

Ymganghena blaen y gorsen yn amryw golfau byrion; ar flaen pob un o'r cyfryw, y saif blodeuyn cau, hirsawdlog, o liw glas-goch, gan y mwyaf; y blodau a'r mân-ddail a'u cysgodant, a ffurfiant dysw blaenfain bonbraff, o ymddangosiad tra phrydferth.

Y gwreiddyn sydd fawr ac ysbagog, yn gyffelyb i gil-ddant dynol; dau o'r cyfryw wreiddau a gair yn gysylltiedig a'u gilydd dan bob un o'r llysiau hyn; un o honynt mewn cyflwr gwywedig, yn ysbwngaidd a di-nodd, a'r llall yn fr ac iachus; y blaenaf a nofia mewn dwfr, ond yr olaf, am ei fod yn llawn o nodd trwm a gludaidd, a sawdd i'r gwaelod:—y blaenaf, medd y plant a'r merched, yw Adda, a'r olaf yw Efa, druan.

Y gwraidd a defnyddir; dewiser yr un llawnaf o nôdd, sef yr un a sodda mewn dwfr; berwer ef mewn dwfr glan, glanhaer y bilen allanol oddi wrtho, a gadawer ef mewn awyr sych nes caledo.—Dyma SALEP y cyfyriwr; todda mewn dwfr berwedig, a gwnair o hono felly gyflaith rinweddol i attal clefyd y gwaed, yn nghyd ac adferyd nerth cyfansoddiad a fyddo wedi anmharu. Canmolir ef hefyd rhag y darfodedigaeth; dilymu neu bylu gwlybyron pigog, ydyw yr effaith a wna ar y cyfansoddiad; ac y mae yn rhesymol iddo symmud ymaith y cyfryw ddoluriau ag a achosir gan y fath wlybyron.

BANADL.

(Broom.—Genista).

Prysgwydd byth wyrddion tra adnabyddus, yn tyfu ar foelydd ein hynys, yw y rhai hyn.

Y dail a'r blodau a ddefnyddir.—Y blaenaf sydd ysgarthai, yn gysylltiedig ag ansawdd dwfr-beiriol; ac a ganmolir yn fawr rhag y dyfrglwyf;—y mae yn ffaith, i dê cryf o'r dail hyn fod yn foddion i wellau y clefyd ystyfnig hwnw pan fethai y cyffyriau mwyaf clodfawr. Y blodau ydynt ysgarthai a chyfogai. Cynnwysa y planhigyn hwn raddau helaeth o halen sefydlog alcalaidd, yr hyn, yn ddiammau, sydd yn ei wneud yn ddwfr-berai mor rymus.

BAWM.

(Baulm.—Melissa Officinalis).

Enw arall ar hwn yw Gwenyn-ddail; perllys, a achlesir mewn gerddi, rhy adnabyddus i ofyn desgrifiad, ydyw—tyf yn wyllt ar yr *Alps* a'r *Pyrenees*. Y dail a ddefnyddir.—Ei arogl sydd gyffelyb i lemwm; y blaen-dardd sydd lawnaf o arogl a rhinwedd. Credai yr hynafiaid fod ei effeithiau y fath, ar y cyfansoddiad, fel yr ystynai einioes dros y cyfartaledd cyffredin; ond ni fonwesir y fath dyb yn bresennol: etto, y llysieuyn sydd dra rhinweddol, os nad i estyn einioes, i'w gwneud yn fwy hyfryd a dymunol, tra parhäo; trwy laesu gwaew yn y pen, iachau anhwylderau y cylla, a chynnorthwyo treuliad ymborth. Y modd i'w ddefnyddio, fwyaf manteisiol, yw yn dê. Y nawd-olew, a d listyllir o'r dail, a gynnwys arogl y llysieuyn yn dra chyflawn; ond mor lleied o fesur a ddyry, fel y mae yn anhawdd ei gael gan y cyffyrwyr heb ei lwyr-gymmysgu.

BEATWS.

(Beet.—Beta).

Planhigyn a dyfir mewn gerddi, er mwyn ei wraidd bwytadwy, ydyw y beätws. Y mae tri math o hono, a wahaniaethir wrth liw neu lun eu gwreiddiau.

Y mae i'r Beätws gwynion cyffredin, ddail lled fawrion, o liw goleu-wyrdd; cylchynant gorsen rygnog, braffus ac unionsyth, hyd ei brig; lle y tyr allan flodau melynwyrdd, yn dyswau, pob blodyn yn gogwyddo tua'r llawr; canlynir y blodau gan yr had, y rhai ydynt onglog a phigog. Y gwreiddyn sydd fawr a hirgrwn, o sylwedd lled galed.—Nid ydynt y gwreiddau o un defnydd ar ol yr hada y llysieuyn.

Fel y soniwyd eisioes, y gwraidd a ddefnyddir mewn coginiaeth a meddyginiaeth; dyferwad *(decoction)* cryf o hono a dyner egyr y coluddion, ac felly, o wasanaeth mawr i'r sawl a flinir gan rwymder hirddylynol, wrth wneud defnydd o ddogn rhesymol o hono yn feunyddiol. Dywedir fod beätws wedi berwi, o'r tu arall, yn rhwymai; ac yr attaliant enyniad y llygaid, wrth eu cymmwyso arnynt megis llysblastr. Ymesyd sudd beätws ar bilenau y ffroenau fel trewlwch.

BERWR-Y-GERDDI.

(*Garden cress.—Nasturtium hortense*).

Y mae y llysieuyn hyn yn ddigon adnabyddus mewn coginiaeth; tyfir ef mewn gerddi. Ymddengys ei fod yn rhinweddol i'r rhai a flinir gan yr ysgyrfi, yn nghyd ag anhwylderau croenawl ereill.

BERWR Y DWFR.

(*Water cresses.—Sisymbrium Nasturtium*).

Mewn llc llaith neu wlyb, megis gofer ffynnonau, y mae i ni edrych am y llysiau gwerthfawr hyn. Taenant eu haml gorsenau gweinion, cau, a noddlawn, o gwmpas, gan wreiddio yma ac accw, a bwrw allan ddail asgellawg, cyfansoddedig o amryw ddarnau crynion trwchus a llawn sudd, o flas egrboeth, ac o liw llwyd-wyrdd.

Y blodau, a safant ar gorsenau hirion, ydynt o liw gwyn, ac o faintioli bychain; canlynir pob blodyn gan hedyn bychan, yn cael ei gynnwys mewn cibyn melynlliw. Y mae y llysieuyn yn wyrdd trwy y gauaf; eithr yn y gwanwyn y mae fwyaf rhinweddol. Yr holl lysieuyn a ddefnyddir. Y mae yn dra rhinweddol i'r rhai a flinir gan yr ysgyrfi.

Pura y gwaed, cyflymma ei gylchrediad, a chynnorthwya natur i fwrw allan o'r cyfansoddiad bob gwlybyron drygnaws ac afiach, ag a achosant groendarddiant.—Am ei fod yn cynnwys mesur helaeth o nawd-halen (*essential salt*) cyfrifir ef yn ddwfrberai lled rymmus—ac felly, o wasanaeth i'r cyfryw ag a ddyoddefant oddi wrth attaliad dwfr mewn cyssylltiad a'r ysgyrfi.

Y modd mwyaf manteisiol i ddefnyddio ei rinweddau rhag y ysgyrfi ydyw, cymmeryd, yn feunyddiol, o un i ddwy owns o'i sudd eliredig, hyd onis effeithia yn amlwg ar y cyfansoddiad.

D. L. Moses.

MORMONIAETH.

Attebiad i Ysgrif Philalethes, Rhif. Awst, tudal. 67.

Syr,—Dywedasoch na ddarfu i mi gynnyg gwrthbrofi y ffeithiau a adroddasoch, a bod y ffeithiau yn aros heb eu cyffwrdd braidd. Ni ddarfu i mi addaw eu gwrthbrofi, canys nid oeddwn yn gweled angen am y fath orchwyl, oblegyd y mae y ffeithiau (os teilwng o'r enw) yn gwrthbrofi eu gilydd; cynnygiais nodi ychydig o'r gwrth-ddywediadau, a chyrhaeddais fy amcan. Gwn na chymeradwya un llys gwladol ddywediadau o'r fath, a pha fodd y disgwylir i neb crefyddol ei wneyd ar achosion *llawer pwysicach?* Dywedasoch fy mod i wedi dweyd fod yr ysgrifenwyr Gwrth-Formonaidd wedi rhoddi hanes anfafr ol o Formoniaeth; gwir, tystiais hyn, ac etto yn parhau yr un. Ond nid wyf yn disgwyl i neb i'm credu ar fy ngair yn unig, fel y dywedasoch chwi; pe hyny, i ba beth eu hanogais i fynu gweled eu llyfrau, gan addaw y cawsent weled eu bod yn groes i'w gilydd mewn llawer o bethau; a phe buasem heb ddywedyd hyn, hawdd y gallasech ddeall nad yw yn naturiol i neb roddi hanes ffafriol i wrthrychau eu casineb; hefyd, y mae yr *affidavit* ei hun, yn ddigon o *brawf eglur* i'r neb a'i darlleno, o *anffafriaeth* i'r radd bellaf.

Dywedasoch—"Fe allai fod J. R. yn disgwyl i'ch darllenwyr i'w gredu ef ar ei air yn unig." Sail dlawd, brawd bod heb yr un, ydyw "Feallai."

Wele, ychwaneg o engraifftiau o wrth-ddywediadau eglur. Dywed rhai "geirwir a duwiol," mai S. Spaulding ydyw gwir awdwr Llyfr Mormon; eraill, mai J. Smith a'i gwnaeth, trwy ei gyfeithu oddiar ryw lafnau a'i ben mewn het, trwy gynorthwy *peepstone*, &c. Dywed rhai mai yn *New Salem* yr ysgrifenwyd ef; ereill, mai yn *Manchester*, neu *Palmyra* (pellder o *New Salem* sydd o gwmpas mil o filldiroedd. Dywed rhai iddo gael ei gyfansoddi yn, neu cyn y flwyddyn 1812; eraill mai yn 1827. neu 1830; a hyn sydd beth rhyfedd, y mae y rhai a dystiolaethant y pethau uchod, *oll* yn dduwiol a geirwir, a diwrth-brawf, ac ar

lw;—a pha fodd y gall hyn fod? Amhosibl. Os ewyllysiwch gael ychwaneg o engraifftiau trowch yn ol i'ch ysgrifau eich hun, a chewch hwynt fel eu nodais yn wrth-ddywediadau eglur.

Paham y gwnaethoch gam a mi ynghylch fy rheswm dros wrthod *affidavit* dinaswyr cyfrifol *Palmyra*, &c., ni ddarfu i mi feddwl chwaethach cynnyg y fath reswm ag a nodasoch chwi ger gwydd y byd; mi a osodais yr achos (yr hwn a alwasoch chwi yn reswm) mewn llythyrenau Italaidd, er iddo fod yn amlwg, hyny oedd, fod eu harferion crefyddol wedi cael "*niwed mawr*," trwy Smith, a chanlyniadau naturiol niwed mawr ydynt, digio, bod yn elynion, a dial, os gellir, yr hyn a wnaed i bwrpas, pan wnaethpwyd yr *affidavit*. Dywedasoch, hefyd,—"Mai o herwydd rheswm *cyffelyb* rhaid gwrthod ystori Mr. Caswell, o'r hyn a gymerodd le o flaen ei lygaid yn ei ymddiddan â Smith." Ie, Syr, cyffelyb, os cyffelyb ydyw bod yn weinidogion a blaenoriaid i'r enwadau crefyddol, i ddyn wedi cyfaddef ei hun yn elyn, ac mor ddall a methu gweled llygaid ei gyddyn, a hwythau o flaen ei lygaid ei hun.

Achwynasoch fod ffordd y Mormoniaid o benderfynu dadl, cau genau eu gwrthwynebwyr ac amddiffyn eu tyb, yn un *fer*. Gwir, onid goreu, pa fyraf?

"Llunier i gall haner gair,
Lle daw anghall a dengair."

Pe buasai ein ffordd yn afresymol, neu annheg, buasai genych achos i achwyn; ond y mae profi hyny yn gymaint gorchwyl ag adeiladu cestyll safadwy ar *feallai*, mae'n debyg, gyda *chryn debygolrwydd*, ond odid," a'r cyffelyb."

Syr, hollol gredwyf fod Smith yn hollol rydd o'r holl gyhuddiadau a ddygwyd ac a ddygir i'w erbyn. Fy seiliau dros hyn ydynt,—Yn 1. Fod y cyhuddwyr yn elynion. 2, Fod eu dywediadau yn anghytuno a'u gilydd, ac a rheswm. 3, Fod cyfreithiau yr America, er pob ymdrech, wedi methu ei gael yn euog o ddim. 4. Fod digon o dystion byw, o'r rhai a fu am flynyddau yn nghwmpni Smith, yn tystio ei ddiniweidrwydd o'r cyfan oll. 5. Yr ydwyf finau wedi cael tystiolaeth oddiwrth Dduw, fod y gwaith o ddechreuad Smith yn waith ag y mae Duw yn ei gymeradwyo, trwy ddodi datguddiadau newyddion ynghylch pob peth gwir angenrheidiol yn yr oes hon, fel cynt. Gallaf dystio yn ddigryn; *gwelais*, *clywais*, *mwynheais* fy hun. Pa beth? Gwel 1 Cor. 12. 14. Dichon y dywedir am hyn ei fod yn anmherthynasol yma; ond, pe bai Smith yn euog, fel y dywedir gan y gelynion, ni chawswn i, a miloedd eraill, fwynhau o'i addewydion gan Dduw.

Y mae eich sylw ar y gwahaniaeth sydd rhwng Pabyddiaeth a Mormoniaeth yn ychydig bach, ond os ydyw y Pabyddion yn cael rhyw fath o bethau goruch-naturiol trwy y Pab, y mae ganddynt *rith* duwioldeb; ond gan nad ydych chwi yn eu cael yn un ffordd, yr ydych chwi yn ymddifad o *rith* ychwaethach o *rym* duwioldeb.

Dywedasoch hefyd fod rhaid cael dynion lled hygoel i gredu y dystiolaeth am y llafnau, a bod y dystiolaeth yn dlawd ar fatter o gymmaint pwys. Atolwg, Pa beth sy'n gwneyd y dystiolaeth yn *dlawd*, a'u bod yn ddynion *llwyr-anudnabyddus* i chwi, ynteu eu bod yn *ddistaw* am eu gwybodaeth ynghylch arwyddocad yr arwydd-luniau; yntau, eu distawrwydd am gynifer o'r llafnau a welsant, neu ryw beth arall? Gwn nad yw fod y dynion yn "anadnabyddus" yn un gwendid yn y dystioliaeth. ac nid yw "distawrwydd" yn brawf o anwybodaeth; nac anwybodaeth o rai pethau yn brawf o anwybodaeth mewn pethau eraill; ond chwi a ddywedasoch na wyddent ddim o arwyddocad yr arwydd-luniau fwy na iaith y dyn o'r lleuad; haeriad yw hwn a seiliwyd oddiar anwybodaeth, neu dystiolaeth gelynion. Ond, ebe chwi, fod *rhyw* arwydd-luniau arnynt, a bod *rhyw ysbryd* wedi dywedyd, fod y cwbl o allu Duw. Ai yr un rhan ymadrodd ydyw *y*, neu *yr*, a *rhyw*; *rhyw lafnau*, *rhyw gerfiadau*, *rhyw ysbryd*, a ddywedasoch chwi; ond nid dyna a ddywedodd y tystion. Paham y gwnaethoch y cam hyn a hwy? Ymddengys i mi naill ai nad ydych wedi darllen Llyfr Mormon, neu, nad yw eich ewyllys i wneyd tegwch a'r tystiolaethau.

Nid yw yr un-ar-ddeg yn attebol dros J. Smith, ond tystiasant yr hyn a welsant, ac a deimlasant eu hunain, a hyny dros Dduw. Awgrymasoch eich parodrwydd i ddyfod i'r mees ag ychwaneg ynghylch J. Smith a Llyfr Mormon. Am J. Smith, y mae ef wedi marw, gadewch iddo; ond, os oes genych *dwyll a forgery* o Lyfr Mormon, da chwi, dangoswch hwnw yn eglur, fel y gallo rhai bychain fel nyni y Seintiau yma eu gweled a'u gwrthod yn ol llaw. Ond, cofiwch, mai nid *twyll a forgery*, yn ol barnau, credoau, na thraddodiadau yr oes, yr ydym yn addaw ei wrthod, eithr yn ol y *gwirionedd a rheswm*.

Gan obeithio y cofiwch hyn, y gorphwys
Yr eiddoch yn ddiffuant,
Dinas. JOHN RICHARDS.

CYFRWYSDER.—Cyfrwysder sydd ddoethineb gwyrgam: nid oes dim yn fwy niweidiol na bod dynion cyfrwys yn cael eu cymmeryd yn lle doethion.

Adolygiad y Wasg.

Y Meddyg Rhâd; neu Law-lyfr Iechyd, yn cynnwys eglurhad o'r egwyddorion a reoleiddiant y Cyfansoddiad Dynol, a chyfarwyddiadau hyrwydd i gadw iechyd, ynghyd ag Hyfforddiadau pa fodd i ymddwyn mewn achosion dig-wyddiadol a disymwth. Caerfyrddin; SPURRELL, *tudal.* 84.

Darllenasom y "Llaw-lyfr" gyda chryn foddhad; ac yr ydym yn ddiolch-gar i Mr. Spurrell am hyn o anrheg new-ydd i'r Cymry, heb anghofio ein dyled i'w Argraff-wasg ef am "Y Ffermwr," "Awyriad Aneddau" a'i ddau "Eirlyfr" rhagorol, "Cymraeg a Saesonaeg," a "Saesonaeg a Chymraeg." Da yw medru trin y ddaear yn ddeallus a chelfyddgar; a da, yn ôl ein barn ni, yw i Gymro fedru ysgrifenu iaith ei wlad gyda chymhwysder; a da iawn iddo ddysgu darllen a siarad Saisneg; ond rhaid addef bod gwybod pa fodd i *gadw iechyd corfforol* o fwy o bwys nag un o honynt.

Nid ydym yn gweled yn amlwg oher-wydd pa un o'r rhesymau canlynol y rhoddwyd yr enw "Meddyg Rhad" i'r llyfr; pa un ai am fod ei bris mor isel—dim ond 8c am gymmaint o hysbysiadau a chyfarwyddiadau gwerthfawr, neu am y golygir y bydd i'r sawl a ddilynant y cyfarwyddiadau i gael eu harbed rhag talu llawer am gyffyriau neu ymweliadau meddygol; neu ynte am ei fod yn *rhat-ach* yn gystal ag yn rheitach peth, i *gadw'r iechyd* nag i geisio ei adferu wedi ei golli, serch cael "*advice gratis*" a *physick* am ddim. Diau fod lluoedd a drigolion ein gwlad yn syrthio yn fynych i afiechyd o ddiffyg gwybodaeth, o'r fath a geir yn y llyfr hwn.

Nid oes un meddyg cyfrifol wrth ei enw yn cael ei ddwyn ymlaen yma, fel awdur-dod dros gyfwirdeb yr hysbysiadau. Dichon y gwelir hyn yn *wall*. Nid y'm ni yn proffesu bod yn hyddysg yn y pethau hyn. Ond mor belled ag y med-rwn ni farnu, mae'r Colwynydd wedi bod yn ofalus i wneud defnydd o waith yr awdwyr goreu ar y pyngciau a drafodir. Yn gyffredin, gydâ phob cyfarwyddyd rhoddir y rheswm paham, yn cyfodi oddi-iar natur yr amgylchiad. Mae'r gwaith wedi ei gyfansoddi ar ddull Hawl ac atteb. Ar y cyfan fe ymddengys i ni, bod y Llaw-lyfr dan sylw, yn ôl ei fain-tioli, yn atteb y diben oedd mewn golwg, sef, i roddi, "mewn dull gryno ac eglur, lawer o hysbysiaeth gwerthfawr a budd-iol, ar y pwngc pwysfawr o iechyd"—yn well na dim, ar a wyddom am dano, sydd wedi ymddangos yn yr iaith Gymraeg.

Ond fel y gallo'n darllenwyr farnu drostynt eu hunain, rhoddwn yma ddi-fyniad neu ddau allan o'r gwaith ei hun.

YR AWYR, NEU AWYRGYLCH.—TUD. 8.

G. O ba beth y mae yr awyr wedi ei chy-fansoddi neu ei gwneuthur?

A. Awyr a wneir i fyny o ddwy nwy *(gas)* wedi eu cydgymmysgu, bob amser yn yr un dognedd neu gyfartaledd. Un nwy a elwir ufelai *(oxygen)*, a'r llall a elwir blawrai (*ni-trogen*).

G. Yn mha gyfartaledd y maent wedi eu cymmysgu?

A. Mae yn yr awyr yn agos pedwar cym-maint o flawrai ag sydd o ufelai; neu, i ddy-wedyd yn fwy cywir, yn mhob 100 cyfran o awyr, y mae 79 o flawrai, ac 21 o ufelai, heblaw rhyw ychydig o'r nwy a elwir *carbon-ic-acid*, neu sur-garbonig.

G. Pa beth yw y nwy a elwir *carbonic-acid?*

A. Nwy drom a gwenwynllyd ydyw, a gy-farfyddir â hi weithiau mewn pyllau glo; ac y mae yn lladd pawb a'i hanadlo. Cynnyrchir hi hefyd gan sylweddau llysieuol pydredig a llosgedig, gan y fflam oddiwrth lampau a chanwyllau, gan anadl dynolion ac anifeil-iaid, ac mewn ffosydd drewedig a chauedig.

YR YSGYFAINT AC ANADLIAD.—TU. 10.

G. Pa fodd y gall yr ysgyfaint gymmeryd awyr i mewn?

A. Yr wyf wedi dywedyd mai yspwng cig-og yw yr ysgyfaint. Mae yr yspwng hwn yn llawn o dyllau neu gelloedd bychain; nifer y rhai hyn a gyfrifir yn gant a phedair ar ddeg a thrigain o filiynau (174,000,000), ac y mae pob un o'r rhai hyn yn cymmeryd awyr i mewn fel y mae yn dyfod i wared trwy y gwddf neu y corn gwynt.

G. Paham y mae y fath nifer afrifed o gelloedd â hyn?

A. O herwydd y mae yn ofynol fod ar-wynebedd mawr yn yr ysgyfaint, er mwyn i'r awyr gael effeithio arno; a pha ambaf y bo y celloedd, mwyaf i gyd fydd yr arwyneb-edd.

G. Pa gymmaint o awyr sydd yn myned i'r ysgyfaint?

A. Dyn llawn-dwf iachus a dyna i mewn o un i ddau *beint* bob tro yr anadla.

G. A ellwch chwi ddywedyd pa beth sydd yn dyfod o'r awyr wedi iddi gael ei thynu i mewn fel hyn?

A. Mae yn treiddio i holl gelloedd yr ysgyfaint, lle y mae un rhan o honi yn cael ei llyncu neu ei chymmeryd i fyny gan y gwaed fel y mae yn rhuthro trwodd, a'r gweddill a anadlir allan drachefn, yn gymmysgedig â'r nwy a elwir *carbonic-acid*, ac ager neu darth.

G. A oes genych ryw sylwadau i'w gwneyd ar yr awyr a anfonir allan felly o'r ysgyfaint?

A Oes; yr wyf wedi dywedyd eisioes fod *carbonic-acid* yn nwy gwenwynllyd; gan hyny, ni ddylai awyr wedi ei hanadlu unwaith, ar un achlysur gael ei chymmeryd eilwaith i'r ysgyfaint. Y mae o'r anghenrheidrwydd mwyaf i anadlu awyr bur yn wastadol.

Gosodir pwys neillduol ar Lanweithdra, fel un o foddion penaf iechyd.

GLANWEITHDRA, YMDROCHI AC YMOLCHI.—TUD. 13.

G. Pa les sydd yn deilliaw oddiwrth ymolchi yn y modd hwn?

A. Nid yn unig y mae y croen yn cael ei gadw yn lân, ond yn ddioed ar ol y rhwbio, y mae gwres bywiog yn ymdaenu dros yr holl gorff, yr hwn sydd yn dra adnewyddol. Dygwydda yn fynych fod dynion a godant o'u gwelyau mewn ysbrydoedd isel, yn cael eu bywiocâu yn hollol, trwy olchi a rhwbio eu croen fel y crybwyllwyd.

Mae'r "hyfforddiadau pa fodd i ymddwyn mewn achosion digwyddiadol a disymmwth" yn teilyngu sylw cyffredinol.

Heb ychwanegu rhagor—gadawer ini gynghori ein darllenwyr ieuainge i brynu y "Llaw-lyfr," ac i wneud defnydd o'r hysbysiaeth fuddiol a roddir ynddo.

I.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

YR EXHIBITION, NEU'R ARDDANGOSIAD MAWR.

Mae'r *Exhibition* yn parhau i dynu sylw ac ymweliad a bob parth o'r wlad. Nid oes nemawr argoelion fod yr olygfa ar fyned yn ddiflas. Mae pawb o'r ymwelwyr a welsom ni, yn cytuno fod y peth tuhwnt i bob desgrifiad; a bod y dyddordeb ynddo yn cynhyddu yn hytrach na lleihau, bob tro yr eir i syllu ar yr olygfa. Cyn pen mis neu ddau bydd llawer o'n darllenwyr, ond odid, fel ninau, wedi cael cyfleusdra i farnu drostynt eu hunain.

Mae'r disgwyliadau a ffurfiwyd cyn agor yr *Exhibition*, am ddyfodiad dieithriaid, yn awr yn dechreu cael eu cyflawni. Wrth rodiana ar hyd a lled y Tŷ Gwydr, yr ydys yn cael ryw ddrychfeddwl sut yr oedd hi ar adeiladwyr Twr Babel. Mae yno bob iaith yn mron yn cael ei llefaru. Ar amryw olygiadau mae cael cerdded am ddiwrnod tufewn i'r Palas Gwydr cystal a chael teithio trwy amrywiol wledydd y ddaear. Mae'n wir na cheir golwg ar y mynyddoedd, y dyffrynoedd, yr afonydd, &c., ond y mae cynnyrch naturiol gwledydd, cynnyrch diwydrwydd yn mhob dull, trigolion y gwahanol wledydd, eu gwisgoedd a'u hymddangosiad cyffredinol, i'w gweled, a'r ieithoedd i'w clywed, heb deithio ond hyd y Tŷ Gwydr. Ac nid yw y bobl gyffredin heb ganfod hyn, oblegid y maent yn tyru yno wrth y miloedd, ddydd ar ol dydd; a diau y parhant i wneuthur hyny, tra y caffont gyfleusdra. Dywedir wrthym y ceir mwy o addysg trwy roddi tro trwy'r Palas Gwydr, a'r llygaid yn agored, a'r meddwl ar waith mewn un dydd, nag a geir wrth ddarllen cyfrolau lawer. Dydd Llun y Sulgwyn, rhwng naw a deg o'r gloch y boreu, dechreuodd y bobl ymgasglu o bob cwr, a chyn yr awr arferol o agor, yr oedd pob ochr i'r adeilad yn cael ei gylchynu a thorf fawr yn awyddus i ddod i mewn. Gellir ffurfio drychfeddwl am y cyflymdra yr oeddynt yn ymgasglu oddiwrth y ffaith, fod o fewn i'r awr gyntaf, hyny yw, cyn 11 o'r gloch dros 21 mil o bobl o fewn i'r adeilad. Erbyn y nos yr oedd nifer yr Ymwelwyr yn ystod y dydd wedi cyrhaedd dros 50 mil. Y dydd Llun canlynol, yr oedd nifer yr ymwelwyr dros 60 mil o rifedi. Ar rai diwrnodau, wedi hyny, deallwn fod cymmaint a 70 mil wedi bod yn bresenol. Nid oes un wythnos nad yw'r ymwelwyr yn cael y cyfleusdra tra dymunol ganddynt o weled y Frenhines yn ymgymysgu â'i deiliaid yn yr Arddangosfa fawr.

Y SENEDD.

Nid oes un cyfnewidiad o bwys wedi cymeryd lle yn ystod y mis diweddaf. Mae amryw gynnygiadau wedi cael eu gwneud; ond mewn gwir, nid oedd neb yn disgwyl iddynt gael derbyniad, chwaithach eu gosod mewn gweithrediad, yn yr amgylchiadau presenol. Mae Ysgrif y Teitlau Eglwysig ac eraill o fesurau'r Weinyddiaeth yn debyg o gael eu passio heb nemawr y wrthwynebiad bellach.

Y CYFANDIR.

Mae'r gwahanol bleidiau yn Ffrainge yn parhâu i fod yn bur anghyttunol â'u gilydd. Mae Brenin Prwssia yn diweddar wedi dangos mwy o barodrwydd nag oll, i uno âg Awstria a Rwssia yn eu hymdrechiadau i gadw rhyddid *Germany* dan draed.

Marwolaethau.

Ebrill y 9fed, mewn oedran teg, Naiomi gweddw y diweddar Mr. Benjamin Evans, Gelinen, yn mhlwyf Cilrhedyn. Oedd yn aelod cysson a defnyddiol a Eglwys Undodaidd Panteg, a llanwodd ei lle yn dra rhagorol mewn byd ac Eglwys.

Ebrill y 9fed yn 55 o'i hoedran, Ann Evans,, Ceirau Cellan, Ceredigion. Menyw ryfeddol ydoedd fel pen-teulu ac fel Cristion proffesedig dros flynyddau lawer yn Eglwys Caeronnen, lle y claddwyd hi. Oedd yn atteb yn gyflawn i'r testyn a ddewisodd Mr. Griffiths i bregethu yn ei hangladd, sef, "Benyw yn ofni yr Arglwydd a gaiff glod." Bydd colled mawr i'w theulu ar ei hol, a gwelir ei heisiau yn fawr yn yr Eglwys yn hir.

Ebrill 27ain, yn 91 mlwydd oed, David Davies, o Treiorwg, gerllaw Llandilo: yr hwn oedd aelod rheolaidd a pharchus ymhlith yr Undodiaid yn Onnenfawr; perchid ef fel cymydog hawddgar a chymmwynasgar, ac yr oedd yn Gristion deallus a zelog; yn ei deulu yr oedd yn dawel ac yn foddlongar.

Ebrill 27ain, yn 82 oed, Edmund Davies, Pantmeinog, gerllaw Brechfa, yr hwn oedd aelod rheolaidd ymhlith yr Undodiaid yn Cwmmawrdu er pan adeiladwyd y capel.

Mai y 31ain, yn 20 oed, o'r darfodedigaeth, Dafydd Rosser, unig fab Edward a Mary Rosser, ger Pontwhalby, Cwm Nedd. Treuliodd y rhan fwyaf o'i amser dan ddysgyblaeth Mr. Owen Evans, yn ei ysgol ar Gefn Coed-y-cymmer. Yr oedd wedi ystyried rhai o'r canghenau uchaf mewn dysgeidiaeth, ag hyd ei ddyddiau diweddaf yr oedd yn darllenydd diflino. Yr oedd o dymmer garuaidd a hollol ddiniwed, cafodd ei barchu yn fawr gan bawb a'i adwaenai.

Gofyniadau.

1. A ydyw calch yn llesiol i bob math o dir? Os ydyw, rhodder profion o hynny.

2. A ydyw yn ofynol i ffermwr i ddeall fferyllìaeth mewn trefn i wneud y goreu o'i dir? Os ydyw, dangoser y lles o'r wybodaeth hon iddo.

3. Pa les i Bregethwyr yw dysgu Geometry, Trignometry, ac Algebra? Dynion annysgedig oedd y rhan fwyaf o'r Apostolion, ac mae yn well gan y torfeydd yn gyffredin, mewn llawer man etto, wrando dynion diddysg yn pregethu, na gwrando dynion celfyddgar a dysgedig.

4. A ydyw sylwedd (*matter*) yn rhanadwy annherfynol (*infinitely divisible*) neu ynte a oes gronynau bychain (*atoms*) mewn natur ag nas gellir eu rhannu yn fanach?

SION O LANYBYDDER.

1. A ydyw y gred o fod y Diafol yn dylanwadu ar feddyliau dynion, yn tueddu at anfoesoldeb? Os ydyw, profer hynny.

2. Pa fodd y gellir cysoni Hanesion Mathew a Luc am linach (*genealogy*) a genedigaeth Crist?

3. Pa beth a feddylir wrth egwyddor?

4. Sonia Paul am Gorph, Enaid, ac Yspryd, pa beth yw y gwahaniaeth rhwng y tri hyn, os ydynt dri?

5. Pa rai yw yr amrywiol ystyriaethau a ddynodir gan y gair *pneuma* yn y Testament Newydd?

6. Pa beth yw ystyr y geiriau, Esgob, Prophwyd, Apostol, Henuriad, Diacon, Efengylwr; ac yn mha beth y maent yn gwahaniaethu, fel swyddau Cristnogol, yn ol darluniad y Testament Newydd o honynt?

J. R. GLANTEIFI.

1 Meddylier fod dwy aradr yn aredig cyfer o dir bob un, a bod un o honynt yn torri cwys naw modfedd o led a phump o ddyfnder, a'r llall yn tori cwys wyth modfedd o led a phedair a hanner o ddyfnder; pa faint raid i bob un o'r aradwyr i deithio, a chyfrif fod hyd eu cwysi yn gan Llathaid.

2. Meddylier fod gardd ysgwar yn gyfer o dir, a bod y garddwr yn chwanych defnyddio y drydedd ran o honi at flodau, o amgylch yr ardd; y gofyniad yw, pa faint raid fod lled y gwely blodau o amgylch yr ardd mewn trefn i gymmeryd i fynu y drydedd ran o'r cyfer tir.

MORGAN SION PENCARREG.

Barddoniaeth.

MYFYRDODAU CYMRO

Ar ei ymweliad a thŷ a chymydogaeth ei enedigaeth, yn mis Gorphenaf, 1824.

Wele'r bryniau a'r dyffrynoedd,
Lle y safai tŷ fy Nhâd;
Wele'r lle a'r fan yn gyntaf
Cefais fod a bywyd rhad;
Wele hefyd yr hen lwybrau,
A arweinient at y tŷ,
Lle c'ai dlodion ddrws agored
A llawn roesaw hawddgar hŷ.

Pwy, heb wylo, wna ymweled
Âg annedle 'ienctyd gwiw,
Ac atgofio'r hoff berth'nasau
Oeddynt yno gynt yn byw?
Ond yng "nghysgod angau'n cysgu"
'Nawr heb nerth mewn llaw na chlun,
"Yn y greian obry'n gorwedd,
Ydynt heddyw'n drwm eu hun!"

Dyna'm teimlad innau'r awrhon,
Wrth fud syllu ar y fan,
A feddyliais rai blynyddau,
Y rhagorai ar bob rhan:
Er mai tŷb blentynaidd ydoedd,
Rhaid cyfaddef fyth y gwir;
Etto 'nawr yn ngrymder oedran,
Hoffai'n fawr i rodio'r tir.

Ond nid cof am rwysgc a mawredd,
Uchel achau, parch a bri;
Nac anwadal olud bydol,
Wna i'm llygaid ffrydio'n lli';
Eithr grymder tyner gariad,
Gwir serchiadol, di-leihad;
At yr uniig rai o'r ddaeren,
Deimlais gynta' dan fy nhra'd.

Yma'n faban, heb wybodaeth,
Nerth na deall, dysg na dawn—
Trwy hynawsedd, serch mynwesol,
Mam a thad, ce's nodded lawn;
Trwy wych driniaeth, llaw rhagluniaeth,
A thiriondeb tynged fwyn,
Wele'r baban oedd yn egwan,
I'r stâd ddynol gwedi 'ddwyn.

Gwedi treulio hir flynyddau,
'Maes o'm genedigol wiad;
Ac ymdeithio ymhlith dieithr'aid
O wahanol iaith a gwa'd;

Mawr yw'r fraint a mawr yw'r gwynfyd,
'Nawr ac eilwaith roddi tro,
I gael golwg etto'n chwaneg,
Ar fy hen gartrefol frô.

Llawer gwrthrych 'nawr o'm amgylch
Ar y dê a'r aswy law,
Bâr i'm calon dyner doddi
Wrth ei ganfod oddi draw:
Can's heb dafod, sain na geiriau,
Mewn modd distaw dwg i'm co',
Ddyddiau difyr llon a difraw,
A'm diddanent lawer tro.

Gwelaf heddyw gaeau, gwaunydd,
Goed a cherrig fawr a mân,
O'r un dull ac ymddangosiad
A phan gwelais hwynt o'r bla'n;
Can's, fel dyn, nid y'nt ddiflanawl,
'Rhwn mewn rhodres 'drycha'n hardd,
Ond er dringo'n uchel, drenga,
Fel blodeuyn gwych mewn gardd.

Etto nodau cyfnewidiad
Sydd i'w canfod ar bob tŷ;—
Wele fangre lon fy ie'ngctyd
'Nawr yn hen fagwyren sy:
Llwyr ddymchwelwyd ei stafelloedd.
Torrwyd trwy ei chonglau oll,
Ac o'r gwaelod mae ei gwelydd,
Gwedi myn'd i gyd ar goll.

Byth ni cheir o dan ei chronglwyd
Weithian gludwch rhag y gwlaw;
Byth ni rydd i wael gardottyn
Wely mwy, os yma daw;
A'i haelwydydd fyth ni welir
Mwy yn dambaid gan y tân;
Na llon dylwyth wrth y danllwyth,
'N ymddigrifo fawr a mân.

Ond er iddi'n llwyr ddiflanu,
Fel nas gwelir mwy o'i lliw,
Yn fy mynwes mae 'ddi sylfaen,
Na symmudir tra fwy'n byw:—
Can's er pelled byddai'n trigo
Ac er hardded byddo'r wlad,
Nid anghofiaf, tra'r anadlaf,
Lle na dull hen dŷ fy Nhâd.

T. D.*

* Y diweddar Barch. Timothy Dafis, Oldbury; brawd Mr. Dafis, Pentre Shôn, ger Llanbedr.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.